

CLONC



golygydd@clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 254 - 50c
Mis Mehefin 2007

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanbydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Sêr enwog yn lleol

Seren leol yn enwog



Llun gan Huw John

Matthew Rhys a Sienna Miller – sêr enwog y ffilm ‘The Edge of Love’ yn actio ar y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan ar ddiwrnod braf ym mis Mai, gyda glaw ffug. Yr actores enwog arall oedd Keira Knightly. Gyda 180 yn gweithio ar y golygfeydd yn ystafell y llys ac yn y Stryd Fawr am ddau ddiwrnod, daeth tipyn o gyffro i’r dref.

Mwy o luniau’r ffilmio, dyddiadur ecstra gan Jen Cairns a phrofiadau Tomos Rhys yn hel llofnodion y sêr, ar dudalen 21.

Mwy o luniau Eisteddfod yr Urdd ar y dudlaen gefn.



Llun gan Eifion Davies

Elonwy Davies. Llanbydder a enillodd Tlws John a Ceridwen Hughes yn Eisteddfod yr Urdd eleni, am wneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru.

Mae’n gweithio’n ddygn gyda’r Ffermwyr Ifanc a’r Urdd. Mae’n chwarae rhan bwysig yng Nghapel Rhyd y Bont. Mae’n arwain Côr Lleisiau’r Werin, Côr Meibion Cwmann a’r Cylch, yn athrawes biano ac yn hyfforddi unigolion a phartïon i gystadlu yn Eisteddfodau’r Urdd a chystadlaethau’r Ffermwyr Ifanc.

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygyddion:			
Mehefin a Gorffennaf e-bost:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349	golygydd@clonc.co.uk
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan		
Gohebwyrr Lleo:			
Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359	
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922	
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015	
Llanwenog a Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies		
Ffaldybrenin a Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507	
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238	
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856	
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407	
Llangybi a Betws	Iorwerth Evans, Greenwell	493484	
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218	
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453	
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257	
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270	
Bwrdd Busnes:			
Cadeirydd e-bost:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349	cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd	Twynog Davies, Frondolau, Llambled	422880	
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015	
Trysorydd e-bost:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015	ysgrifennydd@clonc.co.uk
Swyddog Dosbarthu e-bost:	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590	bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion	Nia Wyn, Maesglas Joy Lake, Llanbed	480015	
Ceidwad y Camera Ffotograffydd	Janet Evans, Haulfryn	422856	
Argraffwyr	Tim Jones, Llainwen	422644	
	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573	
Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro:			
Siân Jones	23 Stryd Fawr, Llambled	423410	
Guto Jones	36-38, Pendre, Aberteifi	01239 621828	

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Mae rhannau o Clonc ar y we ar safle Cymru'r Byd y BBC: www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch a'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch luniau o ddigwyddiadau eich ardal chi yn Clonc.
- Mae camera digidol Clonc dan ofal Janet Evans.
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedigwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar ddisg neu CD, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk. Os ydych yn argraffu lluniau digidol, sicrhewch nad yw'r argraffydd yn gadael llinellau ar y llun, a'ch bod yn defnyddio papur lluniau safonol.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

Siprys

Rhoi galwyn mewn potel beint!

Dyma broblem sy'n wynebu'r golygydd y mis yma. Mae popeth yn digwydd. Eisteddfod yr Urdd; Rali Ffermwyr Ifanc Ceredigion, Priodas ei frawd, Gŵyl y Banc a'r holl ddigwyddiadau, ac ar ben y cyfan ffilmio hanes Dylan yn Llanbed. Sut y daeth Dylan (Golygydd) i ben - fe gewch chi farnu. Mae'n hyfryd cael digon o ddeunydd – os na chawsoch eich “mentioned in dispatches”, cofiwch fod yna rifyn arall y mis nesaf.

Darlledu o'r Eisteddfod yn dda.

Diolch i'r mowredd fod gennym radio yn y car. Fe leddfodd hwn ychydig ar y ddwy filltir olaf i gyrraedd yr Eisteddfod fore Llun, a gymerodd awr a thri chwarter i'w chwblhau. Rhaid cyfaddef fod y maes,- wedi cyrraedd,- yn werth yr ymdrech. Mae llenorion, adroddwyr a chantorion lleol ynghyd â chyfranwyr i gelf a chreffft wedi dwyn clod i'r dalgylch. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y cystadlu.

Bwyta'n iach

...oedd thema'r Rali eleni ac fe gafodd yr un clwb ar hugain

ying Ngheredigion hwyl fawr arni. Fe fu afal pîn, pupyr coch, grawnwin a ffrwyth y Kiwi yn destun trafod a gwaith diflino i gynorthwyo'r clwb lleol yn ein tŷ ni. Llongyfarchiadau i glwb Pontsian ar ennill y Rali, ac i Lanwenog ar ennill Cwpan Gwynne am y clwb enillodd y mwyaf o farciau yn ystod y flwyddyn; a dod yn drydydd yn y Rali.

Medal Aur!

Na dim medal mewn cystadleuaeth oedd hon ond un am wasanaeth arbennig o gyflym. Adran y ffyrdd sydd yn cael y fedal – rhoddais alwad ffôn i Aberaeron i ddweud fod ‘gratin’ wedi dod yn rhydd ar y ffordd o flaen y tŷ. “Rhoddaf wybod i'r adran nawr”, meddai'r ferch ar y ffôn. ‘Wedi clywed hyn o'r blaen’ meddyliais. Ond na, cyn pen yr awr roedd y gwaith o ailosod y ‘gratin’ wedi dechrau. Da iawn wir, mae na wers i ni hefyd – os gwelwn berygl ar yr hewl codi'r ffôn sydd eisiau.

Nabod y teip

Dyma deitl cyfrol ddiddorol Dylan Iorwerth sydd newydd ddod o'r wasg. Casgliad yw

o'i gyfraniadau i'r Western Mail, Yr Ymofynnydd, Clonc a chylchgronau eraill. Mae'n werth ei ddarllen. Mae'n wyrthiol sut y llwydda Dylan i gael rhywbeth gwahanol a diddorol i'w ddweud o hyd . Rwy'n cael gwaith meddwl am destun gwahanol bob mis! Rhaid dysgu fy hun i fod fel yr arlunwyr sy'n cario llyfryn bach, ac yn gwneud darlun cyflym ar y pryd i'w hatgoffa. Cyn bod y ‘Siprys’ yma wedi cyrraedd y llawr dyrnu, fe fyddaf wedi cofio beth yr o'wn ni'n feddwl ddweud. Gwneud nodyn sydd angen – ond dyna, fe fydda'i wedi anghofio ymhle y rhois i'r nodyn.

Pob hwyl.

Cloncyn

Golygyddol

Mae'r broses o gynhyrchu CLONC erbyn hyn yn ddi bapur! Derbnir y newyddion a'r lluniau ar e-bost a disgiau. Gyda chymorth Elgan Griffiths a Phrosiect Papurau Bro Ceredigion a Phenfro, darparwyd hyfforddiant ac offer er mwyn cysodi'r cyfan ar gyfrifiadur.

Gobeithio y cytunwech fod hyn yn gam ymlaen ac yn rhoi diwyg glan a threfnus i'r papur. Wedi dweud hyn, nid yw'r rhifyn cyntaf hwn, a gysodwyd ar gyfrifiadur, yn debygol o fod yn berffaith. I'r gwrthwyneb. Mae wedi golygu oriau ac oriau o arbrofi a gwneud camgymeriadau. Ymddiheuriadau felly, os na chynhwyswyd eich newyddion yn gyfan ac os na ymddangosodd y lluniau neu rhywbeth arall fel y dylent ymddangos.

Diolch i Carys, Morgan a Mari yn arbennig, am dreulio eu gwyliau hanner tymor hebda i y tro hwn!





MEHEFIN

- 10 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel y Bryn am 2:00 a 7:30.
- 17 Rihysal yr Undodiaid ym Mrondeifi am 6:00 a 7:00.
- 22 Barbeciw a Disgo yng Nghlwb Rygbi Llambled. Elw tuag at Sioe Amaethyddol Llambled a Phwll Nofio Llambled.
- 24 Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Brondeifi, Llambled am 2 a 6y.h.
- 25 Cyfarfod agored yn Ysgol Llanwenog i drefnu'r penwythnos o ddathlu mis Medi gan bod yr Ysogl yn 140 mlwydd oed. Croeso cynnes i gyn ddisgyblion yr Ysgol i ddod i'r cyfarfod neu unrhyw un arall sydd am ddod i helpu.
- 29 Dawns Haf yn Neuadd y Celfyddydau i ddathlu Ysgol Newydd Ffynnonbedr.
- 30 Barbiciw a Disgo Harold ac adloniant gan Dai Jenkins, Clwb Rygbi, Llanybydder – elw er budd Ymchwil Cancr Cymru.
- 30 Diwrnod Hwyl Clwb Cledlyn Drefach.

GORFFENNAF

- 2 Ffair Haf a Thwrnament Pêl-droed Ysgol Llanwnnen am 4y.p.
- 7 Noson Gymdeithasol yn y Talbot, Tregaron. Tynnir y raffi fawr. Dechrau am 7:30. Elw i Ward Meurig, Ysbyty Bronglais.
- 7 Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog am 2 o'r gloch yn cynnwys Twrnament Pêl-droed, BBQ, Ras Hwyl a Stondinau amrywiol.
- 8 Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llanybydder gan Barti'r Shanis am 7:30y.h. Elw tuag at y Capel.
- 14 Mabolgampau Cwrtnewydd.
- 21 Cneifio Llambled ar fferm Capeli Cribyn.
- 25 Cyfarfod Agored Dathlu Ysgol Llanwenog yn 140, am 7.30.

AWST

- 11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 17 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- 18 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 – 27 Penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn ysgol Gyfun Llambled. Mwy o fanylion yn y misoedd nesaf.
- 27 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Llanllwni o dan nawdd C.Ff.I. Llanllwni ar gaeau Abercwm. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Meryl Davies ar 01559 384217.

MEDI

- 2 Diwrnod 'Bant a'r Cart' i lansio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010.
- 8 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann
- 9 Cymanfa Dathlu 40 oed Eisteddfod Rhys Thomas James. 14eg, 15fed, 16eg – Pen-wythnos o ddathlu Ysgol Llanwenog yn 140 oed.
- 15 Cyngerdd Mawreddog mewn pabell yng nghanol Drefach [dathliadau Ysgol Llanwenog] gyda Gwenda a Gaynor Owen; Gillian Elisa; Ifan Lloyd; Ifan Griffiths; Deiniol Wyn; Gwawr ac Einir; Coda a John Evans yn arwain y noson.
- 23 Cymanfa Ganu 100 oed yng Nghapel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 28 Cyngerdd Mawreddog o dan nawdd Pwyllgor y Sioe Frenhinol, Apêl Ceredigion 2010 yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth - artistiaid – Côr Godre'r Aran, Rhys Meirion a Leah Marian Jones.

HYDREF

- 6 Noson Caws a Gwin yn Neuadd Sant Iago Cwmann – elw at Sefydliad Prydeinig y Galon.
- 10 Sioe Ffasiwn Ysgol y Dderi - Siop *duet* yn Neuadd Coleg Llambled.

TACHWEDD

- 3 Cyngerdd gan Gôr Godre'r Aran yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30y.h.
- 10 Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

Mehefin

1982 Llanllwni - Mrs Margaret Griffiths, Y Ficerdy yn 104. Golygydd Clonc - yn gofyn am fwy o 'ymateb' oddi wrth y darllenwyr. Llanwenog - yn colli cymeriad – Miss Hetty Jones, Caellan yn marw yn 86 mlwydd oed.

1983 Llambled - Rhaglen Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan a'r Fro Mehefin 26 – Gorff 3. Lluniau'r plant yn paratoi ar gyfer Pasiant 'Lawdi Ilom'. Cellan - Dawns Sgubor yn Ffosyffin, - 'Eryr Wen' yn perfformio

1984 Llambled - 'Twrr Tanllyd' ddim yn cael perfformio yn y Neuadd Fictoria yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Edwin Jones yn derbyn siec am £60,000 i'r 'Steddod oddi wrth Cadeirydd Cyngor Sir Dyfed. Cwmsychpant - Nanna Ryder yn cael Gwisg Las i'r Orsedd.

1985 Gŵyl Werin Newydd - Y Cnapan. Llanybydder - Cyngerdd Deymged i Mrs Edith Williams, Tŷ'r Ysgol, - Prifathrawes Ysgol Llanybydder am flynyddoedd lawer.

1986 Llanybydder - Ysgol y Dderi yn 10 oed, Llanfair - Yr Eglwys yn cydnabod gwaith diflino Mr Gwyn Evans, Maesgwyn (Llanfair Fawr) dros gyfnod o 54 o flynyddoedd. Llambled - Mrs Rosa Evans, Drefach House – organyddes Capel Brondeifi am 56 o flynyddoedd. Gwragedd Y Smotyn Du yn crasu 2,500 o bice bach i 'Gŵyl Teulu Duw' yn Llanellwedd.

1987 Llambled. Ymgrych i gael Ysgol Ddwyieithog Benodol i ardal Llambled / Tregaron / Aberaeron. Sefydlu Maer ieuengaf y Dre – Mrs Dorothy Williams, ac Anthea ei merch yn Faeres iddi. Gorsgoch - Diwrnod agored 'Defaid Cymru' ym Meinigwynion Mawr. Miloedd o bobl yn ymweld â'r lle.

1988 Llanybydder - Aelodau Capel Ebeneser yn cyflwyno tysteb i Mr D.T.Lloyd, Olmarch, am ei waith fel Ysgrifennydd am 40 mlynedd. Pentrefi'r ardal yn brysurododi arian ar gyfer Gŵyl Ddrama'r Urdd yn Nyffryn Aeron.

1989 - Gorsgoch Brynhafod. Cymanfa'r Ysgolion wedi ei chynnal yn ddi-fwlch ers 120 o flynyddoedd. 'Y Llyffant' - Ray Evans. Cyfeiriwyd eisoes am glyweliadau ar gyfer cynhyrchiad teledu; Rebecca Kelly a Sian Rowlands o Lanybydder yn cael rhan 'Esther' (iau a hŷn), ac Aled Jones, Meysydd, Drefach yn chwarae rhan ei brawd.

1990 Cwmann - Capel Bethel, yn dathlu 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Achos ym Mharcyrhos. Llambled - Mrs Hamer yn derbyn y 'Fedal Gee' am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul am dros 80 o flynyddoedd. Sefydlu Kistiah Ramiah yn Faer y Dref, - ei fam a'i chwiorydd yn teithio o Johannesburg, De Affrica ar gyfer yr achlysur. Cwrtnewydd - Mr Bifan Morgan yn ymddeol o'i swydd fel Pennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Gyfun Llambled.

1991 Menter Newydd - Cwmni 'Dolen' – sef Eleri Davies a Margaret Davies Jones yn mentro i fwydo'r miloedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cwmann - Linda Jones, Coedmor Hall yn ennill Cystadleuaeth 'Egon Ronay' dros Gymru, gan fynd ymlaen i gystadlu dros Brydain. Llambled - Aelodau Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfed yn glanhau o gwmpas Llyn Falcondale.

1992 Pencarreg - Trigolion y pentref yn gofyn "Pwy sy'n berchen y Llyn?" Ysgol Uwchradd - Noson o Rasys Asynnod yn codi arian i'r ysgol.

1993 Llanybydder - Mrs Rowena Williams yn derbyn tlws 'Halen y Ddaear' ar Rhaglen 'Heno'. Menter Newydd - Lansio Cwmni 'Iaith Cyf.' yn Llambled.

1994 Llanybydder - Gwisg newydd i blant Ysgol y Dderi. Llanllwni - Cwmni 'Teifi Timber Products' Cross Roads yn derbyn Tystysgrif o'r Swyddfa Gymreig.

1995 Llambled - Gareth Richards yn ennill 'Masterchef Cymru a De Orllewin Lloegr'. Disgyblion yr Ysgol Uwchradd yn ymgrychu i ddiogelu Ynysoedd y Galapagos. Gweithwyr 'Dewhurst' yn derbyn gwobrwyon am wasanaeth ffyddlon dros 10 ac 20 mlynedd.

1996 Llambled - Cymdeithas y Cerddwyr yn trefnu ymgrych 'Lone a Chlone' er mwyn annog ymwybyddiaeth o ymarfer a chadw'n iach. Clwb Bowlio - Anwen Butten yn cael ei dewis fel aelod o dîm bowlio Merched Cymru dan 25 am y 7fed tro yn olynol. Adran Urdd Llambled yn ennill tair gwobr 1af yn Eisteddfod Bro Maelor.

1997 Cwmann - Brenhines Rali Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin- Ann Thomas. Llanwnnen - Elin Jones, Tynllyn wedi ei sefydlu fel Maer Tref Aberystwyth.

1998 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llŷn ac Eifionydd. Bardd y Gadair - Gareth Lloyd James, Maesteg, Cwmann. Enillydd Tlws John a Ceridwen Hughes, - Janet Evans, Haulfryn. Llambled - Cynog Davies, A.S. yn agor Ystafell Haul newydd yn Hafan Deg. Ysgol Gyfun - Mrs Margaret Davies-Evans, Harford Row yn cyflwyno Cwmpwrdd Arddangos i'r Ysgol er cof am Hefin Evans.

1999 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llanbedr a'r Fro wedi cyrraedd. Arian yn dal i lifo i mewn. Lluniau ac atgofion Eisteddfod 1959. Cadair yr Eisteddfod – cyflwynwyd gan Gwmni Gwilym Price, ac a grëwyd ganddynt yn ogystal.

CELLAN

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus iawn i Alex Conti yn ddeunaw oed-mwynha'r dathlu!

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Astrid Caselhide, Llys Wen wedi iddi golli ei thad yn ddiweddar.

Codi arian

Cynhelir noson i godi arian i Ymchwil y Galon ac i'r Neuadd ar yr 22ain o Fehefin. Edrychwn ymlaen at noson ddifyr o gaws a gwin a disgo i'r teulu cyfan wrth godi arian at achos da. Gobeithio y cewn eich cefnogaeth i gyd.

Llywydd y Gymanfa

Mary Jones, Glasfryn oedd Llywydd Cymanfa Ganu yr Annibynwyr a gynhaliwyd yng Nghapel Shiloh eleni.

Cofiwch ddanfôn eich newyddion ataf i hwyluso fy ngwaith ac i ddangos ein bod ni'n bobl brysur yng Nghellan!

LLANLLWNI

CFfi Llanllwni

Cawsom lawer o hwyl a sbri wrth gystadlu eleni eto yn y rali flynyddol. Yn yr adran hŷn daeth Geraint Evans a Aled Thomas yn drydydd yn y gystadleuaeth cneifio. Llongyfarchiadau i Gareth Sisto a Dafydd Lloyd am gipio'r ail safle wrth adeiladu tegau i blentyn yn y gwaith coed adran hŷn a hefyd i Nerys Thomas am ddod yn ail yn y gystadleuaeth gosod blodau mewn daliwr anarferol.

Yn yr adran Iau cafodd Meryl Davies gwpan yn y gystadleuaeth crefft. Bu cystadlu brwd yn y coginio adran iau efo 21 o dimau yn coginio pryd o fwyd iachus i blant ysgol, lle ddaeth Catrin Evans a Roxanne McMullan yn drydydd. Daeth Anwen Jones a Daniel Joynson yn ail allan o 19 o dimau yn barnu defaid suffolk.

Ar ddiwedd y dydd daeth llwyddiant i Glwb Llanllwni drwy gipio yr 8fed safle yn yr adran Hyn ar 7fed safle yn yr adran Iau.

Llongyfarchiadau i bawb a

fu'n cystadlu a diolch i bawb am ein cefnogi ac ein dysgu.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad â Tom Jones, 32 Bryndulais ar golli ei chwaer Mair Lewis, Llanybydder.

Diolch

Dymuna Eric a Tegwen Davies, Neunant ddiolch yn fawr iawn am bob dymuniad da, cardiau, galwadau ffôn a rhoddion i'w merch Carol sydd wedi bod o dan lawdriniaeth yn ddiweddar.

Diwrnod o Hwyl

Edrychir ymlaen yn fawr at y Diwrnod o Hwyl sydd i'w gynnal ar gaeau Glanafon ar ddydd Sadwrn, Mehefin 9fed. Yr elw tuag at Cylch Meithrin a Ti a Fi.

Cyngor Bro

Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Mai yn Ffestri Capel Nonni ar nos Fawrth y 15fed gyda 8 aelod yn bresennol ynghyd â Fioled Jones (Cynghorydd Sir), Cwnstabl Rhydian Jones a hefyd Jeffrey Reynolds a David Morgan o Asiantaeth yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Dywedodd Rhydian Jones fod yna broblem goryrru drwy'r pentref a fyddai yn gwneud ymdrech i gael fwy o bresenoldeb yr Heddlu. Dywedodd swyddogion yr amgylchedd mai'r broblem fwyaf yw baw cŵn, sbwriel a cheir yn cael eu gadael. Er bod sawl achos wedi bod yn llwyddiannus y mae angen rhagor o arwyddion.

Gan fod y Clerc presennol wedi mynegi ei ddymuniad i ymddeol ar ôl 37 mlynedd, derbyniwyd llythyr oddi wrth Linda Evans, Ceunant yn cynnig ei hun fel y clerch newydd ac fe dderbyniwyd y cynnig yn unfrydol a gyda llawenydd. Bydd y clerch newydd felly yn dechrau ei dyletswydd yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Swyddogion 2007-08: Cadeirydd – T.J. Davies, Greenacres, Is-Gadeirydd – Eirug Davies, Ffynnon newydd Clerc – Linda Evans, Ceunant.

Cafwyd cais gan William a Daphne Davies, Dolifor am gael lamp tu allan i'r tŷ ac a fyddai yn fudd hefyd i amryw o'u cymdogion. Penderfynwyd rhoi ystyriaeth i'r cais a gwneud archwiliad a oedd y lle yn



Aelodau'r Cyngor Bro a fu'n casglu sbwriel

addas.

Ffordd Felinfach – Bryn: Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor Sir nad oedd arian ganddynt i wneud y ffordd hon yn addas i wneud defnydd ohoni.

Bu aelodau o'r Cyngor Bro a ffrindiau yn casglu sbwriel ar hyd y ffordd fawr drwy Llanllwni ac fe gasglwyd rhyw ugain o fagiau. Diolch i bawb a fu yn cynorthwyo a hefyd i Andy a Sue o'r Belle Vue am drefnu lluniaeth ar ôl dychwelyd yn rhad ac am ddim.

Llwybrau Cyhoeddus: Penderfynwyd gwneud archwiliad yn fuan i weld ym mhle y mae eisiau gwneud gwaith cadw a lle mae angen arwyddion newydd.

Ysgol Llanllwni

Aeth rhai aelodau o'r Urdd i chwarae bingo yng nghanolfan bentref, Cwmann gyda ysgolion eraill Cylch Llambod. Cafwyd noson hwylus gyda rhai yn ennill gwobrau. Aeth tîm o'r Adran Iau i Chwaraeon Potes yr Urdd, Cylch Llambod, yn Ysgol Ffynnonbedr brynhawn Llun Mai 22.

Buom am drip i'r 'Amgueddfa am Blentyndod' yn Llangeler, ar ôl ysgol dydd Llun Mai 11. Roedd yn ddiddorol gweld yr hen deganau o wahanol gyfnodau. Buom hefyd yn eistedd yn yr hen ysgol. Galwom nôl ym Mhencader i gael swper.

Bu dosbarth y babanod yng Nghei Newydd yn gwneud gwaith daearyddiaeth, sef cymharu ardal gyferbyniol. Ar ôl astudio'r ardal cawsom amser i fwynhau a chwarae ar y traeth.

Aeth plant yr Adran Iau ar ymweliad i Amgueddfa Sain Ffagan fel rhan o'u gwaith hanes y tymor yma sef 'Tai a

Chartrefi'. Cafwyd diwrnod diddorol yn cymharu'r gwahanol adeiladau sydd yno.

Ymunodd pymtheg o blant yr ysgol â phlant ysgolion Llanwenog a Mefenydd i ganu yng ngwasanaeth Dydd Sul Addysg yn Eglwys Aberaeron, brynhawn Sul Mai 13. Diolch i'r rhieni a aeth gyda eu plant a diolch i chi blant am ganu mor dda.

Treuliodd y brifathrawes, Mrs Nans Davies, rai dyddiau yn Iwerddon, cyn hanner tymor, yn cydweithio gydag athrawon o wledydd Awstria, Denmarc ac Iwerddon.

Diwrnod Hwyl

Mae yna groeso i chi ddod i ymuno yn yr hwyl a'r sbri yng Nghae Glanafon (tu cefn i'r Belle Vue) ar y 9ed o Fehefin 2007. Mae yna amryw o weithgareddau wedi eu trefnu yn cynnwys, Castell Bownsio, Stondin Cacennau, ceffyl a chart a Mabolgampau. Bydd yna arddangosfeydd Ceir Rali GB, ac i'r rhai dewr cewch flas lluniaeth Anthony Evans o'r rhaglen 'Stwffio' a fydd yn creu danteithion blasus!!

I rai eraill sydd â thipyn bach o egni bydd yna gyfle i chi ymuno â 'J's workout'. Ni'n ffodus bod dwy lodes bwysig dros ben yn ymuno â ni yn ystod y dydd sef 'Sali Mali' a'r newyddiadures Sara Edwards a fydd yn Llywydd ar y diwrnod.

Yn yr hwyr mae band lleol a phoblogaidd 'Coda' yn chwarae mewn Pabell tu cefn i'r Belle Vue. Rhennir elw'r diwrnod a'r nos rhwng Ysgol Feithrin Llanllwni, Ysgol Gynradd Llanllwni a Ward y Plant Ysbyty Heath Caerdydd.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Meinir Davies a'r 01559 395 381 neu Meinir Evans a'r 01559 395 699.

LLANYBYDDER

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad at Jack a Ray Jenkins, Gelli House a'r teulu ar golli mab yng nghyfraith lawr yn Burry Port ym mherson Adrian Hughes ac yntau ond yn 42 oed.

Hefyd, cydymdeimlwn â Rhys Lewis, Gwernyfed, Heol y Gaer, Sharon ac Eirian a'r teulu oll ar farwolaeth ei wraig a mam annwyl ym mherson Mair a hynny mor annisgwyl o sydyn.

Diolch

Dymuna Emyr a Mary Jenkins, Brynrhosyn ddiolch o galon am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Arian yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Hoffai teulu Lena Williams, 31 Heol-y-Gaer ddiolch am yr holl gardiau, llythyron ac anrhegion tra bu yn Ysbytai Amwythig a Bronglais, Aberystwyth yn ddiweddar. Mae erbyn hyn wedi ymgartrefi yng Nghartref Hafan y Waun, Aberystwyth. Hoffem ni hefyd ddiolch o galon i Eurwyn ac Irene Davies am eu cefnogaeth gariadus yn ystod y misoedd diwethaf.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Marian ag Eifion, Rhydybont ar enedigaeth eu trydydd mab – Rhys William, brawd bach i Tomos a Jac.

Cymdeithas Diabetes Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod Cangen Llanybydder yn Festri Aberduar, ar 21 Mawrth, o dan lywyddiaeth Mair Evans. Cafwyd crynodeb o'r fantolen ariannol gan Betty Jones y trysorydd, a diolchwyd i Denise Jacob am archwilio'r cyfrifon. Penderfynwyd trosglwyddo £7,000 i'r Swyddfa yng Nghaerdydd, tuag at waith ymchwil i Diabetes. Diolch yn gynnes iawn i'r gwahanol gymdeithasau sy'n ein cefnogi ar hyd y flwyddyn.

Trefnwyd stiwardiaid ar gyfer y diwrnodau 'Cerdded yn y Parc', sef teithiau cerdded nodedig i godi arian i Gymdeithas Diabetes Cymru. Os hoffai unrhyw un gymryd rhan, cysylltwch ag un o aelodau'r gangen.

Ysgol Llanybydder

Roedd yn bleser croesawi nifer o ddisgyblion newydd sef Nia, Rowan, Sophie, Rhys, Rico, Benjamin a Llŷr. Aeth yr ysgol

gyfan am drip i Ffatri Siocled Pembertons ar y 17eg o Ebrill. Roedd yn drip addysgiadol fel ran o waith technoleg. Cawsom ddiwrnod pleserus dros ben. Bu rhai o'r plant yn cystadlu yn nhwrnamaint pêl-droed yr Urdd yn Aberystwyth ar y 26ain o Ebrill.

Mae Clwb Chwaraeon 'Campau'r Ddraig' wedi cychwyn yn yr ysgol. Cynhelir y clwb ar ôl ysgol bob nos Fawrth. Mae nifer o blant yn mynychu'r clwb – mae'r ymateb wedi bod yn wych.

Bu Arwel, Joshua, Lauren, Ffion a Michael yn cynrychioli'r cylch yn nhwrnamaint traws gwlad yn Llangrannog ar y 18fed o Ebrill. Gwnaethant yn dda iawn – roedd nifer o blant yn cystadlu.

Ein thema am y tymor yw adeiladau, ac fel rhan o waith addysg Grefyddol rydym wedi bod yn ymweld ag adeiladau crefyddol. Buom yn Eglwys Sant Pedr, Capel Rhydybont, Mosg a Synagog yn Abertawe. Roedd yr ymweliadau yma'n ddiddorol ac yn addysgiadol dros ben.

Aeth nifer o ddisgyblion Bl. 4, 5 a 6 i'r gêmiau potes yn Ysgol Ffynnonbedr nos Lun, 21ain o Fai. Cafodd pawb dipyn i hwyl wrth gymeryd rhan yn y gwahanol weithgareddau.

Bu Sian Elin a Sioned Fflur yn cymeryd rhan yn Sioe Gynradd Eisteddfod Sir Gâr. Gobeithio i chwi fwynhau'r profiad.

Clwb Cefnogwyr - Mis Ebrill: £10 Louise Evans, £5 Heulwen Thomas. - Mis Mai £10 Gary Rees, £5 Carol Lloyd.

Noson Goffi

Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn Festri Capel Aberduar, ar 4 Mai dan nawdd Pwyllgor Buddiannau'r Henoed. Agorwyd y noson trwy anerchiad pwrpasol Mr William Evans, Wern a gyfrannodd yn hael iawn at y coffrau. I ddiddanu'r gynulleidfa cafwyd eitemau gan blant Ysgol Llanybydder a chôr Lleisiau'r Werin. Mawr i'w gwerthfawrogiad y Pwyllgor i chi gyd. Arwerthwyd y nwyddau o'r stondinau yn gyflym. Derbyniwyd llawer iawn o wobrau i'r raffl gan nifer o bobl.

Dymuniad y pwyllgor i'w diolch i bawb am bob cyfraniad ac i bawb fu'n gweithio i sicrhau llwyddiant y noson.

Bydd y pwyllgor nesaf ar 2 Hydref am 7:00y.h. yn yr ysgol.

CWMSYCHPANT

Cwrdd Pawb Ynghyd

Daeth tyrfa luosog i Gapel y Cwm ar brynhawn Sul, 3ydd o Fehefin pan gynhaliwyd Cwrdd Pawb Ynghyd i ddathlu pen blwydd y capel yn 100 oed. Gwasanaethwyd gan y gweinidog Parch Wyn Thomas. Cyn troi tuag adref cafodd pawb siawns i gael sgwrs dros baned a lluniaeth ysgafn flusus yn y festri.

Llongyfarchiadau

Mae nifer sydd â chysylltiadau â Chapel y Cwm ac yn aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Pontsian wedi bod yn llwyddiannus yn Rali'r Sir ym Mydroilyn yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi gyd yn y Sioe Fawr.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Mrs Sally Jenkins, Craigle ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y rhoddion er cof tuag at Gapel y Cwm ac Uned Asesu Meddygol Brys Ysbyty Glangwili.

CORSGOCH

Gor-ŵyr

Llongyfarchiadau i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto i Rhys William o Lanybydder, mab i'w hwyres Marian a'i phriod Eifion.

LLANFAIR

Gwellhad Buan

Hoffem ddymuno gwellhad buan i Barbara Tucker, Llethr Villa, ar ôl llawdriniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Bu yn aros gyda Audrey a Norman Hill am ychydig ond erbyn hyn mae yn ôl yn ei chartref ei hun.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Eleanor Evans, Nantymedd ag Iris Quan, Blaencwm am ennill gwobrau yng Ngŵyl Fai Merched y Wawr a gafodd ei chynnal yn Llanbed eleni. Hefyd i Billy Jones Nouadd am ennill cwpanau mewn cystadlaethau aredig.

Lansio "The Lovers Graves"

Cyflwynwyd yr awdures Mrs Bethan Phillips gan y Cynghorwr Ifor Davies sydd hefyd yn gadeirydd 'Athritis Care' yn yr ardal. Trwy garedigrwydd yr awdurbydd yr elusen hon yn derbyn yr elw o'r llyfrau sydd yn cael eu gwerthu. Rhoddwyd croeso cynnes i'r dyrfa dda oedd wedi ymgynnull gan Gwyneth Jones, Nouadd a diolch iddi am gael noddiant o Fanc Lloyds punt am bunt o'r elw. Diolchwyd i Llinos a Linda am fod yn bresennol ar ran Banc Lloyds.

Pleser oedd cael gwrandao ar Bethan yn siarad am ei llyfr, ac am yr ysbrydoliaeth a ddechreuodd yn hedyn bychan dri deg tri o flynyddoedd yn ôl pan aeth ffrind iddi Mrs Betty Davies, Bryncastell â hi am

dro i weld y beddau ar ochr y mynydd yn Llanfair. O hynny y dechreuodd y chwilio a'r ymchwil, y casglu a'r ysgrifennu sydd yn y llyfr heddiw. Diolchodd i bawb yn y pentre a oedd wedi ei helpu trwy roi gwybodaeth, storïau a lluniau, ac yn enwedig i Gwyneth am ei chefnogaeth.

Cafodd y cyfle i lansio ei llyfr yn y Llyfrgell Genedlaethol a'r Llew Du yn Llanbed ond roedd yn teimlo fod ei lansio yn Llanfair yn hollol addas gan fod llawer o'r personoliaethau a'r storïau a chysylltiadau agos a'r pentref. Roedd yn ysbrydoliaeth i'r gynulleidfa hefyd i wrando ar ddyfyniadau o bob stori gan Mr John Phillips ac yn enwedig i glywed hanes Carreg y Bwci sydd â'i llun ar glawr y llyfr.

Gwnaethpwyd y diolchiadau gan y Cynghorwr Odwyn Davies, a therfynwyd noson ddiddorol gyda the a chage bach wedi eu gwneud gan ferched y pentref.


Sefydliad y Merched

Llongyfarchiadau cynnes i ferched Llanfair a fu yn cystadlu ac ennill yn Rali yr Haf a gafodd ei chynnal yn Aberaeron yn ddiweddar. Enillwyd cwpan Rali yr Haf am y tro cyntaf! Da iawn. Edrych ymlaen nawr at Rali y Nadolig.

Cofiwch am...

Barbiciw ar ddydd Sadwrn, Mehefin 23ain, Trip Castell Powys ar ddydd Sul Mehefin 24ain.

Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen



Llongyfarchiadau mawr i blant yr ysgol am wneud mor dda ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad y Sir yn Llangrannog yn ddiweddar. Daeth Rhys Douglas yn gyntaf yn y ras i fechgyn blwyddyn 6, Steffan Roberts yn 8fed yn yr un ras a Rhian Evans yn 9fed yn y ras i ferched blwyddyn 5.

Bu bechgyn a merched blynyddoedd 5 a 6 yn chwarae pêl-droed ym Mhencampwriaeth y Sir yn Aberystwyth yn ddiweddar. Gwnaeth y bechgyn yn dda i ennill y mwyafrif o'u gemau tra bod y merched wedi gwneud yn rhagorol i gyrraedd y rownd gyn derfynol cyn colli mewn gêm gyffrous ar y "Golden Goal".

Bu holl blant Cyfnod Allweddol 2 yn cymryd rhan mewn Gŵyl Rygbi yn ystod y mis gan fwynhau dysgu sgiliau newydd rygbi Tag tan adain Gareth Williams, sef Swyddog Datblygu Rygbi'r Sir.

Mae'r mis hwn hefyd wedi bod yn un prysur iawn i aelodau Urdd yr Ysgol. Yn gyntaf, cafodd holl aelodau Urdd Carreg Hirfaen, o flynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6, noson hyfryd o hwyl a sbri yn nofio a chwarae Bowllo 10 yng Nghanolfan Wyliau Bae Clarach. Yn dilyn yr ymarfer corff dwys cafodd pawb bryd blasus o fwyd cyn dychwelyd adref wedi llwyr ymladd.

Mwynhawyd noson o hwyl yn Neuadd Sant Iago, Cwmann ar ddechrau'r mis pryd y daeth holl aelodau Urdd Cylch Llambled ynghyd i chwarae Bingo. Diolch i Bwyllgor Urdd Cylch Llambled am drefnu'r noson.

Yn olaf, cynhaliwyd noson o Chwaraeon Potes ar gae chwarae Ffynnonbedr efo aelodau blynyddoedd 2, 3, 4, 5 a 6 yr ysgol yn ymryson a thimau eraill mewn amrywiaeth o gemau llawn hwyl.

Llongyfarchiadau i ddau o'n disgyblion a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfyrddin. Bu Mareid Owen yn canu yn y gystadleuaeth i blant tan 8 oed a chafodd Amy Roberts y wobwr gyntaf wrth gystadlu ar y fflwt yn y gystadleuaeth offerynnol i blant ysgolion cynradd.

Ar ddydd Mawrth, Ebrill 17eg aeth blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 ar drip hanes i Amgueddfa'r ail ryfel byd. Yn ein gwersi hanes roedden wedi bod yn cael gwersi am yr Ail Ryfel Byd felly roedd pawb yn edrych ymlaen i weld arteffactau o'r rhyfel. Roedd John wedi ein dangos o amgylch yr amgueddfa a chawsom ein rhannu i fyny i grwpiau. Buom yn gwisgo hen ddillad o'r ail ryfel byd gan gynnwys mygydau nwy. Cawsom daith o amgylch yr amgueddfa a chael profiad o fod mewn gwarchodfan Anderson. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw ond braf oedd dod nôl i fywyd yn yr ysgol heb feddwl am fomiau ac ymladd.

Adroddiad Alis Button

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol ar daith antur 8 milltir ar draws mynyddoedd Cambria yn ddiweddar. Nod y gweithgaredd oedd i'r plant gyfeiriannu eu ffordd ar draws y mynydd o Fferm Nantstalwen, ar hewl Abergwesyn, yr holl ffordd i Abaty Ystrad Fflur ger Pontrhydfendigaid. Yn ogystal â phicnic hyfryd wrth gyrion coedwig y Tywi, ymarferwyd sgiliau map a chwmpawd a ddysgwyd yn yr Hydref ym Mannau Brycheiniog a chafodd pob unigolyn dro i

arwain y grŵp a thywys yr athrawon yn ddiogel i ben y daith ym Maes Parcio'r Abaty. Profiad arbennig i'r plant ac un blinedig i'r athrawon!

Llwyddodd naw o ddisgyblion hynaf yr ysgol i basio prawf Beicio Diogel y Sir ar ddiwedd y mis yn dilyn diwrnod prysur o hyfforddiant ar iard yr ysgol ac ar lonydd Pentref Cwmann. Llongyfarchiadau mawr i Ryan Doughty, Craig Randall, Fflur Davies, Kiri Douglas, Steffan Roberts, Rhys Douglas, Macaulley Macmullan, Nicola Jones a Tomos Williams am eu llwyddiant.

Aelodau o Gôr Cwmann yn yr Ariannin

Yn ddiweddar bu wyth aelod o Gôr Cwmann gyda ugain o gefnogwyr o'r ardal yn ymweld â'r Ariannin. Roeddent yn canu mewn côr unedig wedi ei drefnu gan Marc Burrows o Gaerdydd, a chynhaliwyd sawl cyngerdd lwyddiannus dros ben ar draws y wlad a'r neuaddau yn orlawn bob tro. Roedd yn brofiad rhyfeddol i weld y glasiers yn ne y wlad a'r golygfeydd godidog yn ardal yr Andes. Roedd lliwiau hydref y coed a'r llynnoedd mawr gyda chopar mynyddoedd yn y cefndir wedi eu gorchuddio gan eira yn bictiwr ni aeth o'r cof yn gyflym. Bydd y siwrnai dros y paith hefyd yn fythgofiadwy.

Yn ystod y daith cafwyd cyfle i ymweld â'r ardaloedd Cymreig yn Esquel, Trevelyn, Trelew a'r Gaiman a chymerwyd rhan mewn Cymanfa Ganu ac ymweld â rhai o'r capeli roedd y Cymry wedi sefydlu. Roedd y croeso yn arbennig ym mhob man. Cyfarfuwyd a llawer a oedd wedi bod yn ymweld â Llambled dros y blynyddoedd ac yn ystod ymweliad â'r Ysgol Gerdd yn y Gaiman cyflwynwyd llun o Gôr Cwmann i'r staff i atgyfnerthu y cysylltiad rhyngddom. Wrth ymweld â Porth Madryn cafwyd hanes am yr ymfudwyr cyntaf o Gymru a hwyliodd ar y Mimosa yn 1865 ac roedd yn glir eu bod wedi gweld caledwch mawr iawn ar ôl glanio ac yn y blynyddoedd cyntaf.

Wrth i'r côr deithio yn ôl i Gymru roedd pawb yn unfrydol bod y daith wedi bod yn agoriad llygad ac yn brofiad bythgofiadwy i bob un.



Cyflwyno llun o Gôr Cwmann i Ysgol Gerdd y Gaiman. Emrys Jones, Ceri Davies, Dewi Davies, David Jones, Cyril Davies, Danny Davies, Mirna Ferreira (Prif athrawes yr Ysgol Gerdd), Marli Pugh de Villoria (athrawes), Eric Williams a Billy Hughes (brodor o'r Gaiman).

Sefydliad y Merched

Taith Ddirgel oedd ar y rhaglen am 8fed o fai. Cyfarfod felly ger Heol Hathren lle'r oedd bws mini yn ein disgwyl a ffordd â ni lawr drwy Lamberd i gyfeiriad Talsarn; troi am ffordd Llangeitho drwy ganol cefn gwlad Ceredigion, i fyny drwy Dregaron ac yn ôl i gyfeiriad Llanbed unwaith eto hyd nes cyrraedd Canolfan y Barcud ar gyrion Tregaron.

Cael ein croesawu yno gan Mrs Mary Lewis a fu'n dweud hanes sefydlu'r ganolfan wrthym. Mae llawer o bethau diddorol i'w gweld yno erbyn hyn, ac yn eu plith maen tapestri a wnaed gan wragedd Tregaron yn dangos hanes y porthmyn. Diolchwyd i Mrs Lewis gan Morfudd.

Troi'n ôl eto am Dregaron a'r bws yn sefyll y tu allan i Westy'r Talbot. Cael pryd blasus o fwyd yno cyn cynnal cyfarfod busnes byr. Derbyniwyd addewidion ar gyfer gwneud bwyd ar ddydd y Carnifal, a gwnaed trefniadau ar gyfer ein cyfarfod nesaf sef taith arall ond taith gerdded y tro hyn pryd y byddwn yn cwrdd yn Heol Hathren eto i gael manylion pellach.

Trefnwyd y daith heno gan Bethan a Helen ac enillwyd y raffl gan Avril.

CWMANN

C.Ff.I Cwmann

Cafwyd blwyddyn lwyddiannus iawn yng Nghlwb Ffermwyr Ifanc Cwmann. Gyda'r clwb yn gwneud yn dda yn amryw o gystadlaethau.

Gwnaeth y clwb yn dda iawn yng nghystadleuaeth ddrama'r sir, wrth ddod yn ail, a chadeirydd y clwb Llion Russell yn ennill yr Actor gorau o dan 26 oed.

Gwnaeth tîm y clwb yn dda yng nghystadleuaeth Siarad Gyhoeddus Cymraeg, gydag Owain Jones yn mynd ymlaen i dîm y sir a ddaeth yn fuddugol ar lefel Cymru.

Gwnaeth tîm cwis y clwb sef Llion Russell, Beca Hands, a Dylan a Louise Jones yn dda ar lefel y sir a Chymru wrth ddod yn ail yn y ddwy gystadleuaeth.



Llongyfarchiadau i Dylan Jones am ddod yn gyntaf yn "Stockman" y sir ac yn ail ar lefel Cymru, ac am ennill aelod hŷn y flwyddyn yng nghinio clwb eleni. Hefyd llongyfarchiadau i Rhydian Thomas a ddaeth yn ail yn "Stockman" y sir a mynd ymlaen i wneud yn dda iawn ar lefel Cymru, ac am ennill aelod iau'r flwyddyn yn y cinio.



Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn y rali eleni, ond yn enwedig i Delyth Williams a Beca Hands am ennill y coginio, ac i Aled Thomas am ddod yn ail wrth blethu rhaff.

Hefyd llongyfarchiadau i Llion Russell a Dafydd Jones am ennill lle yn nhîm rygbi 7 pob ochr y sir, a fydd yn cystadlu yn y sioe



frenhinol Cymru. Pob lwc i chi ddau.

Pob lwc hefyd i Sioned Russell sydd wedi ennill taith i'r Alban gyda'r mudiad am bythefnos.

Rhaid llongyfarch un o arweinyddion y clwb a chyn aelod, Dafydd Lewis a'i wraig newydd Kay ar eu priodas ddiweddar, pob lwc i'r dyfodol.

Gwahoddir pawb i ymuno â'r clwb yn ein helfa drysor blynyddol a gynhelir ar Orffennaf 15, yn dechrau o neuadd St. Iago am 6y.h.

Babi Newydd

Yn ystod y mis ganwyd mab bach i Hugh a Rose, Pantycelyn – Steffan Rhun, brawd i Cara.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Phyllis Price, Brynderi sydd newydd gael llawdriniaeth yn ystod y dyddiau diwethaf.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys ag Emrys Jones, Balford House a'r cysylltiadau i gyd ar farwolaeth ei chwaer yn Llanybydder, Mrs Joan Davies, Swyddfa'r post ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith, a Mrs Sandra Morrison, Minafon, ar gladdu ei brawd a hefyd â theulu'r diweddar Mrs Macmillan a fu yn byw yn y pentref cyn symud i Llanybydder.

Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Audrey Williams, 22 Heol Hathren ar ddathlu ei phen blwydd yn 90 oed.

Clwb 170 Enillwyr Mai

1. Miss Angharad Price, Brynderi, Cwmann, 2 Brian Lloyd, Blaenrhiglog, Farmers, 3. Mrs E. Warmington, Falkland, Llambled, 4. Miss Kelly James, 15 Bro-Llan, Llanwnnen, 5. Andrea Lewis, Llety Gwyn, Llangybi, 6. Miss Mary James, Brynlllys, Llambled, 7. Mr Edwin Evans, Brynderw, Parc y Rhos. 8. Mr David Lloyd Jones, Cedar, Llambled, 9. Mrs Mary Jones, 41a Stryd Fawr, Llambled, 10. Mrs Yvonne Jones, Tan y Bryn,

Cymorth Christnogol

Cyfanswm y casgliad eleni yw £988 - rhagorol bobol Cwmann! Diolch i bawb am roi mor hael a diolch hefyd i bawb a fu'n casglu.

Diolch

Dymuna Rhiannon Lewis, Tanlan ddiolch am y cardiau, y dymuniadau da a chefnogaeth pawb yn dilyn y llawdriniaeth ar ei chefn yn ddiweddar.



Cynhaliwyd Carnifal Cwmann ar ddydd Llun 28 Mai a Llywydd y dydd oedd Mr Islwyn Williams, Gwel y coed. Gwelir ei wraig Anita yn coroni Brenhines y carnifal Alice Evans, gyda'r morwynion Christina Lewis a Shanell McMullan. Y forwyn fach oedd Chloe Chester, a'r macwyiaid oedd Tomos Morgan a Llion Herbert.



Gŵyl y Cenhedloedd Bychain
Small Nations Festival
13 - 15 GORFFENNAF 2007
Glangwenlais, Cilycwm, Llandovery
Rydym yn chwilio am stiwardiaid a staff Cymraeg eu hiaith i redeg y bar

Ffansio tocynnau am ddim i un o Wyliau mwyf llwyddiannus y fro? Mae angen gwirfoddolwyr arnom i'n cynorthwyo yn ystod ac ar ôl y penwythnos. Bydd tocynnau penwythnos ar gael yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr. Telir staff am weithio'n y bar ac rydym yn awyddus i gael mwy o siaradawyr Cymraeg i'n helpu ni.

Tocynnau lleol hanner pris
Os ydych yn byw o fewn 10 milltir i Gilycwm bydd 'na 50 o docynnau penwythnos ar gael am hanner pris o 16eg Ebrill ymlaen (ond dim gwersylla) Ond cynta i'r felin

Dewch ar y bws
Helpwch ni i leihau'r traffig. Bydd gwasnaeth bws gwennol o Lanymddyfri pob awr.

Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor nawr!
Tocyn penwythnos - £50
ebost: smallnations@cilycwm.com 01554 830933
web: www.smallnations.com

LLANBEDR PONT STEFFAN

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor nos Fawrth y cyntaf o Fai pan ddaeth criw o'r aelodau ynghyd i'r Ganolfan Hamdden. Cafwyd noson ddifyr iawn yn chwarae rygbi cyffwrdd o dan ofal Emyr Jones gyda'r bechgyn a'r merched yn ymuno yn yr hwyl. Hefyd cafwyd llawer o sbri yn chwarae badminton. Diolchodd Guto Gwilym i Emyr am gadw trefn ac i Janet a Joy am gynorthwyo.

Bu'r tymor yn un llwyddiannus iawn a'r aelodau yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn cynnwys eisteddfod ddwl, helfa drysor, gemau potes a gweithdy drama. Mae eu dyled yn fawr i'r arweinyddion a'r cynorthwywyr sydd mor barod i roi o'u hamser i'r bobl ifanc. Gwerthfawrogi eu gwasanaeth yn fawr iawn. Bydd yr Aelwyd yn ail ddechrau ym mis Medi.

Noddfa



Cynhaliwyd Ras Peli gan gapel Noddfa ynghyd â Noson Goffi yn festri Brondeifi. Llywydd y noson oed Huw Williams, Derwendeg ac er nad oedd yn medru bod yn bresennol cyfrannodd yn anrhydeddus tuag at yr achos.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan ein Gweinidog y

Parch Jill Tomos ac yn eu plith y Cynghorydd Dorothy Williams, Maer y Dref a thalodd deyrnged uchel iddi am ei gwaith arbennig yn ystod y flwyddyn.

Yna bu'r Maer gyda chymorth ein Gweinidog yn dechrau'r Ras Peli a chafwyd llawer o hwyl a'r tywydd braf yn goron ar y cyfan. Dyma'r canlyniadau: 1af £50 Caradog Jones, Maesyfelin, 2il £25 Gwydion Tomos, Caerdydd, 3ydd £15 J. Riley d/o J.H. Roberts, 4ydd £10 Mrs Williams, Benin, Heol y Bont.

Enillwyd y gwobrau raffl gan y Parch Jill Tomos, Jan Harris, John Jones, John Elfyn a Janet.

Datganodd y Gweinidog ei diolch diffuant i Huw Williams am ei haelioni mawr ac i'r Maer am ei charedigrwydd hithau, i swyddogion Brondeifi am ddefnydd o'r festri, i bawb oedd wedi bod wrthi'n gwerthu ac yn prynu'r peli, i Derek am baratoi'r ffurflenni ar gyfer y Ras, i'r Cynghorydd Hag Harris am ei waith fel arwerthwr ac i bob un a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant y noson.

O ganlyniad codwyd swm sylweddol iawn tuag at gyllid Noddfa.

Diolch

Dymuna Evan Lloyd James a'r teulu Glasydorlan, Rhodfa Glynhebog ddiolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddo yn ei golled, am y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn, blodau a rhoddion i'r tŷ. I'r ficer y Parch Ganon Aled Williams, Parch Eileen Davies a'r Parch Bill Fillery ac i Gwilym Price a'r Fab a'i Ferched.

Ysgol Gyfun

Adran y Gymraeg
Llongyfarchiadau i Siwan

Davies, Bl. 12 ar ennill Tlws Llenyddiaeth yr ifanc, dan 19 oed yn eisteddfod Llandudoch, Mai 19, 2007.



Enillodd y tlws am ddau ddarn o lenyddiaeth mewn ffurfiau gwahanol a chafodd Siwan feirniadaeth ragorol gan y beirniad, y Prifardd Huw Meirion Edwards. Dywedodd fod ei sgript yn waith "eithriadol o aeddfed", a'i deialog yn llifo'n gredadwy. Ceir "urddas tawel a chyffyrddiadau tyner" yn y gerdd. Roedd gwaith Siwan yn llwyr deilwng o'r wob, allan o 12 ymgeisydd, mewn cystadleuaeth o safon uchel. Ymfalchïwn yn ei llwyddiant.

Buddugwyr llenyddol



Llongyfarchiadau i Luned Mair, Bl. 11 ar ennill ail wob

am farddoniaeth Bl. 10 ac 11, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Hefyd, enillodd Luned y wob gyntaf am farddoniaeth dan 19 oed, "Dau" a Siwan Davies Bl. 12 yn ail. Da iawn ferched.

Adran y Gymraeg

Llongyfarchiadau i Luned Mair bl. 11 a enillodd Dlws Llenyddiaeth yr Ifanc yn Eisteddfod Talgarreg 5ed o Fai, 2007, allan o 18 o ymgeiswyr. Cafodd feirniadaeth ragorol am waith o 'safon anhygoel o uchel' sef cerdd ac ymson synhwyrus ac aeddfed. Luned hefyd oedd yn ail yn yr un gystadleuaeth. Cafodd seremoni hyfryd a chofiadwy â'r Parch Cen Llwyd wrth y llyw. Yn Eisteddfod Rhydlewis hefyd, wythnos yn gynt, enillodd Luned yr ail wob ac Elin Jones, hefyd o Fl.11 y drydedd wob yng nghystadleuaeth Tlws Llen yr Ifanc. Da iawn ferched – ymfalchïwn yn eich llwyddiant – daliwch ati.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Hannah James, Ynys Faig, Stryd Newydd, Llambled ar basio arholiad piano gradd un gyda theilyngdod. Dal ati!

Aelwyd yr Urdd

Nos Fawrth 17 Mawrth cymerodd dros 40 o aelodau Aelwyd yr Urdd mewn Helfa Drysor o amgylch tref Llambled. Bu llawer o grafu pen a chwilio diwyd wrth i'r timau geisio dilyn y cyfarwyddiadau a darganfod yr atebion i'r 35 cliw. Daeth yn amlwg fod ambell i dîm yn dilyn cyfarwyddiadau gwahanol iawn neu'n cael trafferth i wybod y gwahaniaeth rhwng troi i'r dde a throi i'r chwith! Erbyn y diwedd fodd bynnag cyrhaeddodd pawb nôl yn ddiogel yn Ysgol Ffynnonbedr wedi cael noson i'w chofio. Timau buddugol bl/7/8 oedd Beca, Sioned Douglas,

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR

newydd agor yn Llambled



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07790429378

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Toriad
Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwar Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

LLANBEDR PONT STEFFAN

Marian a Delun (1af) Natalie, Cerys a Christina (2ail) a Jac a Rhodri yn y trydedd safle. Guto, Aled a Daniel oedd yn fuddugol ym ml9/10 gydag Alaw, Charlotte, Rhian a Laura yn ail a Gwawr ac Elliw yn drydydd.

Diolch yn fawr i Janet am baratoi'r cwestiynau ac i Geinor Medi am gynorthwyo.

Priodas Hapus



Dafydd mab Gwynfor ac Ann, Bronwydd, Llambled a Kay merch Dilwyn a Betty Harries, Waltwn, Sir Benfro a briodwyd yng Nghapel Waltwn ar 26 Mai.

Merched y Wawr



Mrs Mary Davies, Pentrebach y wraig wadd yng Ngwyl Fai Ferched y Wawr, Rhanbarth Ceredigion yn Neuadd Fictoria

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen Llambled nos Lun Mai 14eg gyda Avril Williams y Llywydd yn y gadair. Dymunodd yn dda i Gwenfil Jones a oedd wedi bod yn yr ysbyty. Gwnaed trefniant i ddosbarthu y Pryd ar Glud a dewiswyd aelodau, drwy bleidlais, i fod ar y pwyllgor y flwyddyn nesaf.

Ein siaradwraig wadd oedd un o'n haelodau sef Mary Davies.

Cafwyd noson ddiddorol yn gwrandio arni yn dweud hanes ei thaith gerdded yng ngwlad yr Iâ. Taith nodedig oedd hon i godi arian at Gymdeithas plant byddar. Roedd Mary a'r chwaer wedi cerdded 82km dros dirwedd anodd iawn mewn wythnos a hwy yn unig o'r 22 o gerddwyr oedd yn dod o Gymru. Roeddent wedi bod yn ymarfer ar fynyddoedd y Preselau a hefyd wedi dringo'r Wyddfa cyn mynd ac roedd rhaid i bob un a oedd yn cerdded godi lleiafswm o £2000. Roedd Mary wedi codi tipyn mwy na hynny. Dywedodd eu bod i gyd yn cysgu mewn pebyll a physgod oedd eu prif fwyd. Disgrifiodd y golygfeydd anhygoel, yn enwedig y glaciers. Roeddent hefyd wedi cael mwynhad yn ymdrochi yn y geizers poeth. Roedd pawb o'r aelodau yn edmygu Mary am fentro ar sut daith anodd. Diolchwyd iddi am noson ddiddorol gan Ann Lewis. Enillwyd y raffl gan Noleen Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 11eg, pryd y cawn gwmni Gareth Richards, Y Goedwig. Edrychwn ymlaen yn fawr at y noson hynny.

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da i Mrs Mary Jones, Landre, Stryd y Bont sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar. Gwellhad buan i chi Mary.

Oedfa'r Bore

Bydd yr oedfa foreol a ddarlledir ar Radio Cymru am 11.30 ar Fehefin 10fed yng ngofal y Parchedig Jill Tomos ac aelodau eglwysi Bedyddwyr cylch Llambled.

Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled ym Methel Silian ar ddiwrnod hyfryd o Fai. Llywydd oedfa'r prynhawn oedd Rhys Davies, Bethel Cwm Pedol a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Aron, Dewi a Gethin, Bethel Silian. Mwynhawyd gwledd ardderchog o ganu yng nghwmni'r plant gyda phob un ohonynt wrth eu bodd o dan arweiniad Ann Davies o Lanarthne gyda'i phersonoliaeth fywiog a chynnes. Cyfoethogwyd yr oedfa ymhellach gan

ddarlenniadau graenus a deallus o'r emynau gan y plant.

Tro'r oedolion oedd hi yn oedfa'r hwyr i ganu mawl i Dduw a llywyddwyd gan y Parch Jill Tomos. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Hedydd ac Iwan, Bethel Silian. Eto cafwyd canu gorfoleddus gyda'r arweinydd a'r côr ar eu gorau. Talodd yr arweinydd ei gwerthfawrogiad i bawb am Gymanfa arbennig iawn.

Diolchodd y Parch Jill Tomos yn ddiffuant i'r arweinydd am ei gwasanaeth diflino yn ystod y dydd, i Alwena a Llinos yr organyddion a hefyd i Owen ac Elliw am gynorthwyo yn oedfa'r plant a gwneud ei gwaith yn rhagorol, i bawb oedd wedi cymryd rhan yn ystod y dydd a gwneud eu gwaith mor raenus, i Emlyn am arwain y rihysals eleni eto, i Janet am baratoi'r plant yn ôl yr arfer, i'r cantorion o'r eglwysi lleol am eu cymorth, i Bethel am y te ardderchog 'ar drefniadau manwl, i swyddogion y pwyllgor ac i bob un a gyfrannodd at ddiwrnod bendithiol a llwyddiannus iawn. Aeth pawb tuag adref gyda nodau'r emyn mawreddog "Mae'n fyw" yn atsain yn eu clyw.

Llywyddiant Lowri Elen

Daeth llwyddiant eithriadol i ran Lowri Elen, Glenynydd, Stryd Newydd yn ystod yr wythnosau diwethaf.



Ym Mhonrhydfendigaid cipiodd y wobwr gyntaf yn yr unawd dan 12 oed a daeth yn ail hefyd ar y llefaru. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i Lowri ennill ar y canu yn yr eisteddfod hon – tipyn o gamp a dweud y lleiaf.

Ym Maenclochog enillodd 4 cyntaf, yn y canu, y llefaru, yr alaw werin a'r darllen o'r ysgrythur a hefyd daeth yn ail yng nghystadleuaeth canu emyn.

O ganlyniad cyflwynwyd iddi Darian her am y cystadleuydd mwyaf addawol dan 12 oed.

Yna yn Eisteddfod Llandudoch cipiodd y wobwr gyntaf yn yr unawd a'r llefaru, yr ail yn yr unawd offerynnol ac fe'i dyfarnwyd yn drydydd am ganu emyn. Hefyd derbyniodd Dlws Gwydr hardd am y cystadleuydd gorau dan 12 oed.

Côr Merched Canna

Yn dilyn llwyddiant eithriadol Côr Merched Canna yng Ngwyl Gorawl Verona yn yr Eidal cyflawnodd y côr gamp arbennig arall yng Ngwyl Cheltenham yn ddiweddar. Daeth y côr yn gyntaf mewn tair cystadleuaeth sef cyflwyno dau ddarn gwrthgyferbyniol, cyflwyno dau ddarn cysegredig a'r Côr Merched. Yn dilyn datganiadau disglair a disgybledig iawn ac yn goron ar y cyfan fe'i dyfarnwyd yn Gôr Gorau'r Wyl gan deithio nôl i Gaerdydd gyda phedwar cwpan drud fawr.

Llongyfarchiadau calonnog i Delyth Medi a'r merched am roi Cymru ar y map unwaith eto.

Cymanfa Ganu'r Annibynwyr

Cynhaliwyd Cymanfa ganu'r Annibynwyr, cylch Llambled ar y 13eg o fis Mai. Oherwydd bod Capel Soar yn cael ei adnewyddu, caniatodd gweinidog ac aelodau capel Shiloh, i ni gynnal y gymanfa yno.

Llywydd yr oedfa oedd Mrs Mary Jones, ar ran Capel yr Erw, Cellan; yn ei haraith aeth a'r gynulleidfa nôl i'r adeg pan gynhaliwyd y cymanfa oedd ar ddydd Mercher, a'r plant yn cael diwrnod yn rhydd o'r ysgol – a hynny er mwyn bod yn y tair oedfa, a phob sedd yn llawn.

Mr Berwyn Jenkins, Caerfyrddin oedd yr Arweinydd eleni eto, a chreodd naws hyfryd drwy gyflwyno'r emynau, gan osod y pwyslais ar y geiriau yn hytrach na'r dôn. Bu'r plant yn cyflwyno a chanu eu hemynau hwy yn gyntaf, a diolch i Mrs Carys Lewis am eu hyfforddi.

Diolch yn fawr i swyddogion y pwyllgor am eu gwasanaeth ac yn arbennig i Mrs Elonwy Davies, Llanybydder am ei hyfforddiant drwy gymeryd at y rihysals, ac am gyfraniad gan gôr "Lleisiau'r Werin" o dan eu harweiniad.

LLANBEDR PONT STEFFAN

Ysgol Ffynnonbedr

Mawr yw'n hedmygedd o'r plant sy'n llwyddiannus mewn llu o weithgareddau o fyd chwaraeon llenyddiaeth celf a thechnoleg.

Yn y rhifyn diwethaf soniwyd am orchestion y plant ar raddfa sirol yn y rasys traws gwlad. Yn awr yng nghystadlaethau cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru cafodd Caitlin Page yr ail wobwr mewn ras oedd yn cynnwys 83 o redwyr. Llongyfarchiadau hefyd i Gethin Beeney a Gareth Morgan Isaac am wneud mor dda.

Braf yw medru dweud fod gennym aelod o dîm cricedwyr dan 10 oed De Cymru. Mae Gareth John ar hyn o bryd yn cynrychioli'r rhanbarth mewn nifer o gêmiau - arbennig.

Cipiwyd pedair gwobr eleni yn yr Eisteddfod Genedlaethol - dwy ail wobwr a dwy drydedd.



Enillodd grŵp o Gymry ail iaith yr ail wobwr am gywaith. Dyma'r aelodau - Aarifah Lala, Charlie Roper, Scott Davies, Soren Luchte, Rosalind Gibbons, Ellen Edwards, Jordan Carter, Lydia Thickett, Daniel Wong, Samuel Biden, Roxanne Auckland, Jodie Stephens a Hazel Gale.



Enillodd grŵp arall i Gymry Cymraeg yr ail wobwr am greu gwefan. Aelodau'r criw yma oedd - Gavin Evans, Catrin Morgan, Stephanie Davies, Gareth Jones, Cian Moyce, Niamh Marshall, Rhys Jones, Leanne James a Louie Andreas. Llongyfarchiadau i bawb a mawr yw diolch yr ysgol i'r athrawon a fu'n ysgogi'r plant, a'u harwain.

Fel unigolion cawn ganmol Ceri Jenkins am y drydedd wobwr yn yr adran ryddiaith i blant cynradd ac i Jack Guy am y drydedd wobwr yn y gwaith tri dimensiwn. Da iawn ill dau.




Ceri Jenkins

Daeth Ceri arall sef Ceri Cranfield i'r brig yn 'Cip' am ysgrifennu llythyr. Caiff £40 iddo'i hunan yn bersonol a £100 i goffrau'r ysgol. Mae'r ysgol yn falch iawn o'i ymdrech ac yn ddiolchgar iddo.

Hyfryd yw canmol pawb am eu llwyddiant - llongyfarchiadau mawr.

Bu'r ysgol ar daith gerdded ar 23/5/07 a'r tywydd yn hyfryd. Rydym yn dal i gasglu tuag at Ymdrech Hwyl a Sbri.



Jack Guy



Caitlin Page

Bydd y plant yn cynorthwyo yn y Co-op dros yr hanner tymor. Gobeithio fydd eu llafur yn chwyddo'r gronfa.

Cofiwch am y ddawns yn y Coleg ar Fehefin 29. Mae'r ticedi yn mynd yn gyflym, felly cysylltwch â'r ysgol os am brynu rhai. Byddwn yn falch o'ch gweld yno - dylai fod yn noson hwylus.

Cydnabyddir cefnogaeth

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

i'r cyhoeddiad hwn

Llinell Gyswilt:
0845 6076070
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.mentrau-iaith.com

Nodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Sadwrn, Mehefin 9fed Cloddio Archaeolegol yn Ystrad Fflur

Bydd cyfle i'r cyhoedd ymweld â'r safle rhwng 10 y.b. - 4 y.p. i weld a chlywed fel y mae'r gwaith yn dod yn ei flaen, a'r bwriad a'r gobeithion o'r hyn sydd i'w gyflawni eto i'r dyfodol.

Cyflawnir y gwaith yma gan Adran Archaeoleg ac Anthropoleg Coleg Prifysgol Cymru, Llanbedr, ynghyd ag eraill, megis y Comisiwn Brenhinol dros Safleoedd Hanesyddol yng Nghymru.

Cynhelir BARBECIW A DISGO

(gan Rob Rattray,
Cigydd, Aberystwyth)

yn y Clwb Rygbi Llanbedr Pont Steffan

ar

Nos Wener

22ain Mehefin 2007

Elw tuag at
sioe amaethyddol Llanbedr
a phwll nofio Llanbedr

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llanbedr, Heol Tregaron,
Llanbedr.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Cefn-hafod

Gorsgoch
☎ 01570 434238

Dewch i fwynhau
mewn awyrgylch
Gymreig a chartrefol. Cewch
ddewis eang o fwyd cartref blasus
a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12
tan 2:00y prynhawn hefyd.

*Croeso cynnes oddi wrth
Geraint, Eiddwen a'r teulu.*

Arbenigwyr mewn bariâu
symudol at unrhyw achlysur
allanol a dawnsfeydd ysgubor.



Carpedi Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arnold Davies Vincent Evans

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



“Mwynhau Mefus Mis Mehefin”

Mae pob amser yn hyfryd i groeshawu'r Haf i dudalennau Clonc, a 'does dim mwy yn dehongli'r haf i mi na hyfrydwch ac harddwch y mefus.

Eleni mae mefus Prydeinig bump wythnos yn gynharach oherwydd y tywydd mwyn gafwyd ym mis Ebrill.

Gellir olrhain poblogrwydd y mefus mor bell nôl a 1509 pan oedd y gwŷr bonheddig a'r mawrion yn eu mwynhau i frecwast.

Adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, dim ond y mefus a gasglwyd ar ddydd Sadwrn oedd ar werth i'r cyhoedd, byddai mefus gweddill yr wythnos yn mynd i wneud 'jam' i'r milwyr.

Gwnewch y gorau o'r mefus wrth roi gynnig ar y canlynol.

Mwynhewch y mefus,

Gareth.

Ffŵl Marmor Mefus.

Cynhwysion

4 oz (100 gram) mefus

1 darn o sinsir wedi'i gristaleiddio

¼ peint o hufen

¼ peint o iogwrt naturiol

Dull

1. Gwnewch 'piwri' o'r mefus gan ychwanegi y sinsir a siwgrwr at eich blas.
2. Chwipiwrch yr hufen nes cael pigau meddal. Ychwanegwch y iogwrt gan greu effaith marmor.
3. Rhennwch mewn gwydrau gan eu haddurno a darn o fefus
4. Cadwch yn yr oergell am ysbaid.

Ysgytlaeth Mefus

Gwnewch ysgytlaeth mefus hyfryd drwy ddefnyddio;

un peint o laeth oer;

dwyr 'scoop' o hufen ia mefus;

4 owns (100gram) o fefus ffres

Chwyrliwrch (whizz) y cyfan nes yn llyfn. Arllwyswch i wydrau.

Mefus Siocled

Toddwch ychydig siocled mewn disgyl. Rhowch ffon coctel ym mhob mefus a'i gollwng yn y siocled, yna rowliwrch y mefus mewn blawd coconyt. Gadewch i oeri. Mwynhewch!!



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambod, 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chreffft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

D Aled Evans

Plymwr a
Pheiriannydd Gwresogi



Gosodwr a Chynhaliwr

- Systemau gwresogi
 - Baddonau a chawodydd
 - Gwresogyddion mewn lloriau
 - Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio
- Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu
07966 592 183

Cofio'r dyn bach â'r gadair

“Bydd bwlch mawr ar ei ôl” – dyna'r ffordd draddodiadol o orffen teyrnged goffa. Ond, gydag Idwal, dyna'r ffordd i ddechrau.

Gweld ei golli wnaiff llawer ohonon ni neu, yn hytrach, colli ei weld. Ei weld yn aros am y bws, a'i gadair draeth wrth ei ochr; ei weld yn llusgo'i ffordd i fyny o'r bont tua'r pentre'; colli ei weld yn casglu coed tân yn y caeau.

Idwal oedd un o'r bobol gynta' i ni eu gweld ar ôl symud i Lanwnnen ac un o'r rhai cynta' i siarad â ni. Ar y ffordd heibio i'r bont yr oedd y pryd hwnnw hefyd a ninnau'n ei gyfarfod.

O fewn dim, roedd wedi sôn am ei hiraeth am ei fam. Ninnau'n cydymdeimlo a holi pryd yr oedd wedi'i cholli, gan ddisgwyl clywed “mis neu ddau”. Blynnyddoedd maith oedd yr ateb, ond doedd ei hiraeth ddim mymryn llai.

“Diniwed” ydi gair y gogledd am gymeriad fel Idwal. Does dim sbeng yn y disgrifiad hwnnw; yn hytrach, mae'n llawn anwyldeb. Mae'n awgrymu rhywun sy'n gallu tynnu'r gorau o bobl o'i gwmpas.

Buan y gwelwn ni yn Llanwnnen fod pobl yn gofalu am Idwal. Ffrindiau fel Pitar, a chymdogion yn gwneud cymwynas yn dawel bach. Yn ei fisoedd ola', roedd hi'n bleser ei weld yn drwsiadus a llewyrchus yr olwg, a rhywrai yn rhoi help llaw.

Ar drip Ysgol Sul Capel y Groes y gwnaeth yr argraff nesa' arnon ni. Henry, ei ffrind o dŷ capel Alltyblaca ac yntau yn gwmni clos trwy'r dydd, y naill yn llawn gofal am y llall ac anabledau'i gilydd.

Mi fydd bwlch ger y lle aros bysus. Rhan o fywyd yr haf – a phob tymor arall o ran hynny - oedd gweld Idwal yn aros am fws. Pe baech chi'n rhoi holl deithiau Idwal yn sownd yn ei gilydd, mi fyddai wedi cyrraedd y lleuad ers tro.

Cofio wedyn am y creulondeb pan benderfynodd rhyw reolwr yn rhywle nad oedd y bws yn cael aros yn Llanwnnen rhagor ac Idwal – a'i gadair – yn gorfod ymlwybro'n ôl am Sycamore Terrace a'r siwrnai heb ei gwneud.

Tros dro oedd hynny, diolch i'r drefn, ac ailddechrau wnaeth y teithio. Dyna pam y bydd rhywrai'n siŵr o holi amdano yng nghanolfan y Quadrant yn Abertawe ac ar y prom yn Aberystwyth wrth weld eisiau'r dyn bach yn y gadair.

Mi fydd bwlch ar ein seld ni adeg y Nadolig hefyd. Bob blwyddyn, roedd carden yn cyrraedd ac, ambell dro, bunt fach dan selotep yn ei chanol. Roedd honno'n fwy gwerthfawr na sawl anrheg ganwaith drutach.

Yn enaid Llanwnnen y bydd y bwlch mwya' er hynny. Yn ei ffordd ei hun, roedd Idwal yn cyfrannu'n anferth at fywyd y lle. Nid trwy wneud dim byd penodol, ond trwy gael ei dderbyn a'i anwyllo.

Mae'n hen bryd i'r Urdd symud ei bencadlys i lawr i ardal Clonc ac anghofio am Aberystwyth. Ac yma y dylai'r Eisteddfod fod bob blwyddyn o hyn ymlaen.

Mi fyddai gymaint yn haws i swyddogion a chystadleuwyr wrth i'r cylch gipio gwobr ar ôl gwobr a sawl teitl swyddogol hefyd.

Lai na blwyddyn ers i Rhiannon Lewis roi'r gorau i gadair y mudiad ar ôl naw mlynedd, roedd un arall o bobol Cwm-ann yn dod yn Llywydd – Gareth James, y bardd a'r athro ysgol.

Megis ddoe oedd hi pan dderbyniodd Janet 'yr Urdd' Evans dlws John a Ceridwen Hughes am ei chyfraniad i fywyd pobol ifanc yn yr ardal; eleni, Elonwy Davies. A'r ddwy mor haeddiannol â'i gilydd.

Mae'n siŵr fod yr enwebiad i Elonwy yn dudalennau lawer, yn rhestru'r holl waith y mae wedi'i wneud ond, mewn gwirionedd, mi fyddai un gair yn ddigon ... am nad oes yna'r un peth pwysicach.

Mae unrhyw un sydd wedi ei gweld hi'n arwain côr neu barti Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog, neu'n ei gweld hi'n mynd yn wirion bot pan fyddan nhw'n ennill rhywbeth, yn gwybod yn iawn be ydi'r gair yna.

Brwdfrydedd. Ac, o feddwl, gair arall hefyd. Brwdfrydedd heintus.



Bethan Phillips yn lansio ei llyfr diweddaraf 'The Lovers' Gaves' yn y Llew Du, Llambed.



£1,372.00 a godwyd tuag at Ymchwil Cancr y Fron mewn dawns a drefnwyd gan Hannah Lewis a disgyblion yr Ysgol Gyfun



Y fflot orau yn Ngharnifal Cwmann



William Evans yn agor Noson Goffi'r Henoed yn Llanybydder



Iona Trefor Jones yn ardangos blodau i Glwb yr Henoed Cwmann



Simon Hall, Joy Morris a Sirian Davies o Jones Butchers, Llambed wedi iddynt dderbyn 5 gwobr aur, 4 arian ac un efydd am ansawdd



Lettie Vaughan, Eleanor Evans, Gwyneth Jones ac Iris Quan, Cangen Y Dderi yng Ngwyl Fai Merched y Wawr Ceredigion



Joan Lewis, Bryan Jones, Nicola Harries a Zi Jones gyda'r ddeiseb yn erbyn symud Swyddfa'r Post Llambed



Parau a briodwyd yn Esglws Sant Pedr, Llambed dros y blynyddoedd a fynychodd wasanaeth arbennig yno yn ddiweddar



Bethan Lewis Cadeirydd newydd Siambr Fasnach Llambed gyda'r cyn gadeirydd William Davies yn derbyn sicr am £916 gan staff Banc Barclays tuag at Apel Romania.



Maer a Maeres newydd tref Llambed y Cyng. Christopher a Mrs Janet Thomas

Prydodd yn y cartref - ffordd well?

Mae cynllun peilot y Pryd ar Glud wedi dechrau yn ardal Llanbedr Pont Steffan.

Bydd dros 30 o bobl hŷn yn cael prydodd bwyd poeth gyda gwerth maeth uwch o fitamin C na'r hen Prydodd ar Glud. Bydd ganddynt hefyd ddewis llawer ehangach ar y fwydlen, gyda diet llysieuol ac arbennig yn cael eu darparu. Oherwydd bod y prydoedd yn cael eu cadw yn y cartref, bydd pawb ar y cynllun yn gallu cael pryd pa bynnag amser maent eisiau, ac am y tro cyntaf bydd gan bobl hyn brydoedd ar gael iddynt saith diwrnod yr wythnos.

Mae pob person hyn sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot wedi derbyn asesiad unigol. Bydd yr ychydig rhai sydd heb ficrodon neu rewgell yn cael un heb gost iddynt eu hunain.

Bydd y nifer fach o bobl sydd ddim yn gallu ymdopi a'r trefniadau newydd yn cael eu pryd wedi ei atgynhyrchu wedi anfon iddynt.

Dywed y cyngor "Mae hyn i gyd yn dod fel pecyn da ar gyfer trethdalwyr Ceredigion gan fod y gwasanaeth yn darparu mwy o wasanaethau gwell ar gyfer pobl hŷn am lau o arian cyhoeddus."

Ond beth am y cyswllt â'r henoed? Roedd cludo bwyd yn ddyddiol yn wasanaeth gwerthfawr i nifer fawr o'r bobl. Edrychai llawer ymlaen am y Pryd ar Glud bob dydd fel yr unig ymweliad.

Bydd canlyniadau'r peilot yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod y Cyngor llawn yn y dyfodol.

Gig Mawr Bont

Mae trefnwyr Gig Mawr Bont wedi cyhoeddi enwau'r artistiaid fydd yn perfformio eleni yn yr ŵyl fydd yn cael ei chynnal dros benwythnos olaf mis Mehefin. Y prif atyniad fydd prif artist nos Sadwrn, Bryn Fôn, sy'n debygol iawn o lenwi'r Pafiliwn newydd ym

Mhontrhydfendigaid sy'n dal hyd at 2900 o bobl.

Bydd yr ŵyl yn dechrau ar nos Wener 29ain Mehefin gyda dau o fandiau mwyaf cyffrous y sŷn Gymraeg, Radio Luxembourg a'r Genod Droog, ymysg yr lineup amgen ac amrywiol.

Bydd dechrau cynnar ar ddydd Sadwrn 30ain Mehefin wrth i'r gerddoriaeth fyw ddechrau am hanner dydd ar y llwyfan acwstig, ble bydd ffefrynau fel Alun Tan Lan a mr huw ymysg y diddanwyr. Bydd y prif lwyfan yn agor am 5yh ac yn cynnwys Bob Delyn a'r Ebillion a Fflur Dafydd a'r Barf. Bydd Pontrhydfendigaid hefyd yn croesawu un o'i hoff feibion mabwysiedig, Tecwyn Ifan.

Am fwy o fanylion gallwch ymweld â'r wefan: www.pafiliwnbont.co.uk

Ffermwyr yn arall-gyfeirio.

Bydd dau frawd yng-nghyfraith o'r byd ffermio yn cyfnewid eu tractorau am feiciau dros y pum mis nesaf. Mae Dai Charles Evans ffarmwr a dyn busnes o Silian a Dafydd Owen mab ffarm o Fronant yn beicio 300 milltir o Lundain i Baris dros 4 diwrnod er budd 'Action Medical Research' elusen sy'n talu am ymchwil i mewn i glefydau tebyg i Osteo-porosis, llid yr isgroen, epilepsi, dystroffi'r cyhyrau, clefyd siwgr, afiechydon mewn plant bychain a llu o glefydau eraill. Mae'r ddau yn anelu at godi dros £3,000 drwy cyflawni'r gamp beicio yma.

Meddai Dai "Cafodd mam clun newydd y llynedd ac mae wedi trawsnewid ei bywyd. Rwy'n edrych ymlaen i'r sialens ac os gallaf helpu eraill drwy wneud hyn, mae'n dyblu gwerth y profiad."

Mi fydd y ddau yn cychwyn o Lundain ar y 25ain o Orffennaf. Mi fyddant yn beicio O Kingston i Newhaven ac yna o Dieppe i Baris.

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur



Yswiriant tŷ/cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Mwnci ffwnci



Brodweithio a Phrintio Dillad. Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

Sioned Green a Mared Jones

Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

Pysgod a Sglodion

a enillodd nifer o wobrau, gan gynnwys y gorau yng Nghymru

LLOYDS



4 Stryd y Bont, Llambed
01570 422366

Bwyty Trwyddedig NEWYDD
Bwydlen helaeth NEWYDD
Cyfleusterau cwsmeriaid NEWYDD

Oriau agor y Bwyty:
Llun – Sadwrn 11.30 - 9 yr hwyr
Dydd Sul 4.30 – 8 yr hwyr

KING'S HEAD



Stryd y Bont, Llambed
01570 422598

o dan reolaeth newydd
Emyr ac Ann Marie.

Bwyd Ffres a Chwrrw Da.
Croeso cynnes i bawb.

Gwesty'r Grannell

Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyio ar gyfer pob achlysur,

Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.

Cysylltwch â Susan neu Siriol
01570 480476

Dyfarniad y Darllenydd

Storiâu Sydyn

Treuliais wyliau'r Pasg yn Ninbych y Pysgod. Roeddwn mewn cwmni difyr iawn – Caryl Lewis, Bethan Gwnanas a Gary Slaymaker – a wir, doedd y wraig ddim yn becco! Cyfle i ddarllen tri llyfr newydd gan Y Lolfa yn y gyfres Stori Sydyn gan yr awduron cyfoes uchod ges i. Ac roeddwn i wrth fy modd.



Y Rhwyd oedd y llyfr cyntaf i mi ddarllen – nid oherwydd y clawr deniadol!! Ond oherwydd enw da'r awdures Caryl Lewis. Wedi cael blas ar ddarllen sawl llyfr diddorol ganddi'n ddiweddar fel **Martha Jac a Sianco, dal hi, iawn boi?** a **Sgwbidw Aur**, roedd dechrau gyda hi yn ddewis naturiol.

Nofel am ymgais gŵr priod i fyw ei ffantasiau yw hi, gan drefnu cyfarfodydd dirgel gyda rhesaid o ferched drwy gyfrwng y rhyngwyd. Ond drwy ei gysylltiad a'i ffrindiau a'i deulu, mae'r rhwyd yn cau amdano mewn modd sydyn ac annisgwyl.

Mae gan Caryl Lewis ffordd rwydd o gyfathrebu, ac mae'r darllen yn hawdd. Mae'n anodd rhoi'r llyfr i lawr ar ddiwedd pennod, a rhaid darllen ymlaen oherwydd y chwilfrydedd a greuir gan y nofel.

Efallai nad llyfr i'w darllen gan eich mam-gu yw hwn, ond rhaid llongyfarch yr awdures am blot gwreiddiol ac arbrolfol. Ac mae'r tro ar y diwedd yn uchafbwynt i'r nofel.



os mêts... yw enw nofel Bethan Gwnanas yn y gyfres. Dyma awdures ifanc adnabyddus arall.

Nofel fyrlymus a hwyliog am benwythnos cywennod mewn canolfan awyr agored yw hon. Ann yw'r prif gymeriad, a Hanna ei ffrind gorau sydd wedi trefnu popeth. Dyma ddechrau ar benwythnos o ganwio, dringo, hwyl a lol, ac ambell gath yn cael ei gadael allan o'r cwd.

Mae'r teitl yn awgrymu ei bod hi'n ogleddol, ond mae arddull yr awdures dalentog hon yn apelio at ddarllenyddwyr o bob ardal ac o bob oed. Mae'n llwyddo i greu cymeriadau sy'n gyfarwydd i ni gyd ac yn cyflwyno anturiaethau difyr ar eu cyfer hwy ac ar gyfer y darllenydd. Diddorol iawn oedd ceisio dyfalu lleoliad y penwythnos cywennod a dilyn eu taith o'r gogledd i'r de.



Y JOBYN GORAU YN Y BYD SLAYMAKER oedd yr olaf i mi ddarllen, ac yn sicr yr un doniolaf. Crwt lleol yw Gary sy'n ennill bywoliaeth yng Nghaerdydd drwy wyllo ffilmiau.

Nid nofel yw hon, ond llyfr yn llawn atgofion a phrofiadau doniol y darlledwr sydd â'r swydd orau yn y byd. Fel rhan o'i waith, profodd Gary Slaymaker brynhawn difyr yng nghwmni Rhys Ifans, cafodd gwrdd â Clint Eastwood a daeth i adnabod Gareth Edwards.

Mae hyd yn oed yn dwyn atgofion am ei dad yn mynd ag e i'r sinema, a'i fam-gu yn mynd ag e i wyllo reslo yn Neuadd Fictoria Llambed.

Llyfr sy'n werth ei ddarllen gan fod y storiâu sydd ynddo yn ddifyr ac yn gwneud i chi chwerthin. Yn debyg i'w nofel **Y Sach Winwns**, gallwch glywed Gary Slaymaker yn siarad wrth i chi ddarllen ei atgofion.

Tri llyfr byr y gallwch ddarllen yn sydyn. Tri llyfr na fyddwch yn eu gadael tan i chi eu gorffen. Tri llyfr sy'n werth bob ceiniog - £1.99 yr un yn unig.




Hanes Neuadd Bro Fana a'r gymuned leol yn Ffarmers a Ffaldybrenin

Cyfrol werthfawr clawr caled yn croniclo hanes neuadd a sefydliadau ardal arbennig yng ngogledd Sir Gaerfyrddin yw hon. Cyfrol a ysgrifennwyd ac a ymchwiliwyd gan nifer o bobl yr ardal. Elfyn Davies, gohebydd **CLONC** yn ardal Ffarmers a Ffaldybrenin a ysgrifennodd y rhagair ac a fu'n cydlynu'r cyfan.

Dyma fenter fawr i gymuned fach wledig. Ond o ddarllen y gyfrol, gwelir fod y trigolion hyn yn gyfarwydd â mentro. Ailadroddir hanes adeiladu'r neuadd a'i datblygu, ac adroddir hanes diweddar y neuadd a'r fenter o'i hail godi. A chyn diwedd y gyfrol ceir peth o hanes y Drovers sef y dafarn leol a sefydlu menter gydweithredol i'w phrynu.

Gellir dadlau nad hanes ardal sydd yma, ond darlun o drigolion gweithgar a phenderfynol â gweledigaeth yn perthyn iddynt dros y blynyddoedd. Maent yn esiampl i nifer o ardaloedd eraill yn cadw'r ardal yn fyw ac yn iach i'r dyfodol.

Dengys y gyfrol hefyd sut mae'r ardal wedi newid. Daeth sawl her ar draws y trigolion dros y blynyddoedd, a chofnodir eu hymdrechion i oresgyn rhwystrau gam wrth gam yn y gyfrol hon. Mae'n gyfrol drefnus a dwyieithog. Ymgais arall gan y criw gweithgar i dynnu pawb i'r gweithgarwch, a'r fenter newydd hon yn sgil trafferthion y dyddiau hyn.



Mil a Mwy o Ddyfyniadau

Mae llawer o ddarllenyddwyr **CLONC** yn cofio Edwin C. Lewis, yn Weinidog yr Annibynwyr yn yr ardal, ac nid fel awdur. Cofir amdano fel personoliaeth gref yn y pulpud a'i gyfarchiad iach "Bore da" i'r gynulleidfa.

Ond y gwir amdani yw fod Edwin C. Lewis yn awdur toreithiog. Dyma'r unfed llyfr ar ddeg iddo.

Wedi ei rannu'n adrannau, mae Mil a Mwy o Ddyfyniadau a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer, yn gofnod trylwyr o fydd o bynciau. O'r 'Flwyddyn a'i Thymhorau' i 'Weddiâu a Dyfyniadau am Grefydd', o 'Hen Benillion, Caneuon Gwerin, Hwiangerddi, Rhigymau...' i 'Gymru a'i Phethau', mae yma bennod at ddant pawb. Mae yma hefyd adran sydd yn gyforiog o 'Gynghorion a Sylwadau' – o'r doeth:

"Doethineb gorau yn y byd

Yw cymryd cyngor da mewn pryd."

... i'r ffraeth: "... y mae pawb ym mhobman yn od i rywun yn rhywle."

... a'r cellweirus: "Os oes cosb waeth na'i gilydd y gellir ei rhoi ar ferch, bod yn wraig i weinidog ydi'r gosb honno."!

Wrth ddarllen y gyfrol, gallen i fod wedi gwneud tro ag ambell esboniad a theitl i ambell ddyfyniad. Ond efallai nad cyfrol i'w darllen o'r dechrau i'r diwedd yw hon, ond cyfrol i'w cyfeirio ati pan yn chwilio am ddyfyniad ar gyfer ambell achlysur neu gofnod. Mae'r Mynegai i'r Awduron a'r Mynegai i'r Dyfyniadau ar y diwedd yn ddefnyddiol iawn.

Dyma gyfrol yn llawn cyfoeth yr iaith Gymraeg – cyfrol hanfodol i bawb sy'n caru'r pethe. Wrth ddarllen drwyddi fe ddewch ar draws dyfyniadau a phenillion a glywyd gennych o'r blaen rhywbryd, a dyma nhw nawr o fewn un clawr. Ceisiwyd rhoi ffynhonnell i bob dyfyniad hefyd. Tipyn o gamp!



Berw'r Byd

Un o ohebwyd **CLONC** yw awdures y pecyn hwn – Meinir Ebbsworth, Llanwnnen. Pecyn o ddau lyfr ac un CDROM gan y Lolfa yn cynnwys deunydd addysgol CA3 wedi ei baratoi i gefnogi datblygu sgiliau llafar, darllen, ysgrifennu a meddwl.

Ceir un llyfr ffuglen, un llyfr ffeithiol a CDROM o ymarferion. Paradwys i athro Cymraeg fel fi! Yn ddeunydd ar gyfer disgyblion yn y dosbarth a deunydd parod ar gyfer y bwrdd gwyn. Ond llyfrau hefyd, ar gyfer disgyblion 12 i 15 oed sy'n ceisio gwella eu sgiliau.

Rhennir y llyfrau yn themâu Dyddiau Glas, Tân a Ynysig. Ceir detholiad o weithiau awduron safonol fel Bethan Gwanas, T Llew Jones, Carys Lewis a mwy ynddynt. Deunyddiau at ddant pawb. A phynciau llosg a chyfoes fel *arwyr tân*, *ysmygu*, *llygredd*, *rhyfel* a'r *Trydydd Byd*. Darperir cynlluniau a chynghorion ymarferol ar gyfer ffurfiau ysgrifennu.

Fel athrawes brofiadol, mae Meinir yn gwybod beth sydd o ddefnydd wrth wella sgiliau yn y Gymraeg. Nid llyfrau i sefyll ar y silff fydd y rhain ond llyfrau y bydd defnydd mawr arnynt. Mae'n awdures ar nifer o lyfrau fel **Cyfes Hwyl**, **Ffrindiau Bach a Mawr**, **Cyfes Fflic a Sgil**. A dyma **Berw'r Byd** – llyfrau sgleiniog a lliwgar fydd yn apelio at ardegwyr, ond yn bwysicach na hynny – llyfrau o safon.



Nabod y Teip

Y newyddiadurwr a cholofnydd misol **CLONC** Dylan Iorwerth yw awdur cyfrol Gwasg Carreg Gwalch â'r teitl bachog **Nabod y Teip**.

Casgliad o ysgrifau 1978-2005 wedi'u hysgrifennu i golofnau penodol mewn gwahanol bapurau newydd sydd ganddo. Ysgrifau sy'n sylwebaeth graff a difyr ar fywyd cyfoes.

Yr hyn sy'n gwneud y gyfrol hon mor ddiddorol i ddarllenwyr **CLONC** yw y cynhwyswyd nifer o golofnau yn y gyfrol a ymddangosodd yn **CLONC** yn y lle cyntaf.

Wrth ddarllen y gyfrol daw sawl teitl yn ôl i'r cof fel *Cadw ci mewn cwmwl tystion* a hanes Sam y milgi newydd, *Mis y mwyr a'r myshrwms* a'r ddefod o hel ffrwythau tymhorol, ac *Yr ifanc a wŷr* am lwyddiannau pobl ifanc leol gyda'r Ffermwyr Ifanc ac Ysgol Sul Capel y Groes.

Ceir colofnau a ymddangosodd yn y **Western Mail**, **Yr Ymofynnydd**, a'r **Prom** hefyd. A'r cyfan yn ddarllen difyr iawn gan y newyddiadurwr craff hwn o Alltbylaca. Rhennir y gyfrol yn adrannau o'r *Newyddion* i gofio *Pobl*, o *Ffordd o Fyw* i *Ar Hyd ac ar Led*.

Mae colofn Dylan Iorwerth yn y papur hwn yn boblogaidd iawn bob mis, a thasech yn prynu'r gyfrol hon fe'ch bodlonir â rhagor ohono ar ei orau.

Dylan Lewis

Cymeriadau Bro

Fel swyddogion **CLONC** gobeithiwn, gyhoeddi cyfrol yn arbennig ar gyfer y Nadolig. Wedi treulio blynyddoedd yn ysgrifennu am gymeriadau'r ardal, cyhoeddir cyfrol o gymeriadau bro Twynog Davies mewn cydweithrediad â Phrosiect Papurau Bro Ceredigion a Gogledd Penfro.

Gwahoddir darllenwyr **CLONC** maes o law i danysgirfio i'r gyfrol a chynnwys eu henwau ynddi.

Mae swyddogion y Prosiect Papurau Bro wedi bod yn ail deipio'r erthyglau a chysylltu â'r cymeriadau neu eu teuluoedd. Ond nid oes y lluniau gwreiddiol dal ar glawr gennym. Y broses oedd danfon y lluniau yn ôl i'r cymeriadau wedi cyhoeddi pob erthygl yn **CLONC**. Apelir felly, am y lluniau'n ôl, neu luniau eraill i'w cynnwys yn y gyfrol. Danfonwch y lluniau cyn gynted â phosib at Sian Jones, Swyddfa Antur Teifi, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BH. Dychwelir y lluniau i chi wedyn.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Yn gyntaf, hoffwn gymryd mantais o'r cyfle hwn i ddiolch i drigolion Ceredigion am fy nghefnogi yn etholiadau'r Cynulliad ar ddechrau'r mis. Mae wedi bod yn ffrainc i gael cynrychioli pobl Ceredigion yn y Cynulliad dros yr wyth mlynedd diwethaf ac rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r gwaith caled am y pedair blynedd nesaf. Wedi siarad â chymaint o bobl yn ystod yr ymgyrch ym mis Ebrill, mae'n amlwg bod y mwyafrif o drigolion Ceredigion yn rhannu fy awydd i gael mwy o fuddsoddiad mewn tai a swyddi yng nghefn gwlad ar gyfer ein pobl ifanc. Maent hefyd yn gwrthwynebu chwyn y bygythiad i'n hysbytai cymunedol a'r bwriad i israddio Ysbyty Bronglais. Byddaf nawr yn parhau i godi'r materion yma yn y Cynulliad.

Erbyn i chi ddarllen y golofn hon, bydd Rhodri Morgan wedi cael ei ail-ethol fel Prif Weinidog y Cynulliad yn dilyn cyfnod ansicr iawn ym Mae Caerdydd. Fel nifer o Aelodau Cynulliad arall, roeddwn i'n cefnogi dewis amgen sef Llywodraeth yn cael ei harwain gan Blaid Cymru. Byddai Llywodraeth o'r fath wedi rhoi terfyn i gynllun y Llywodraeth Lafur ddiwethaf i israddio ein hysbytai. Fodd bynnag, mae penderfyniad dirybudd y Democratiaid Rhyddfrydol i newid eu meddyliau a pheidio â chefnogi 'clymblaid yr enfys' yn golygu na fydd hyn yn bosib ac mae'n debyg ein bod yn wynebu pedair blynedd arall o Lywodraeth Lafur yn y Cynulliad.

Mae dyfodol ein swyddfeydd post yng Ngheredigion yn parhau i'm mhoeni – yn enwedig y bwriad i adleoli swyddfa bost Llanbedd i gyrion y dref. Bydd symud y gangen o'i lleoliad presennol yng nghanol y dref yn cael effaith fawr ar fusnesau eraill y dref, ac fe fydd hi'n anoddach i'r henoed i gyrraedd y lleoliad newydd. Yn gynharach y mis hwn fe ddaeth y datganiad bod Llywodraeth Lafur San Steffan yn bwriadu cau 2,500 o swyddfeydd post ym Mhrydain erbyn 2009. Mae'n bwysig ein bod felly'n cefnogi ein swyddfeydd post lleol a'n sicrhau eu bod yn parhau i gynnig y gwasanaeth gorau posib i'r gymuned.

FISHERS

ARMS



Bwyty 18 sedd, gardd gwrw a chwrw go iawn.

Cellan, Llambled

01570 422895

RHODRI ELIAS

Peiriannydd Gwresogi Olew

Yn cynnig gwasanaeth i'r tair sir.
RHODRI ELIAS
Wedi lleoli yng Nghaerfyrddin



- Trwsio a gwasanaethu pob math o foileri olew gan gynnwys stoffiau megis AGA, RAYBURN a STANLEY.
- Asesiadau OFTEC wedi eu pasio.
- Telerau da i gwsmeriaid newydd.
- Ffoniwch neu edrychwch ar y wefan am brisiau.

Ffôn: (01267) 230 875
Symudol: 07896 891 733
rhodri@olew.co.uk
www.olew.co.uk

Cadwch y tocyd yma i gael 10% i ffwrdd
Rhodri Elias
Ffôn: (01267) 230875 Symudol: 07896 291733



Masnachwyr Amaethyddol

01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a mwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol. Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llambled

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhrefaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING

Y gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer bob achlysur:

Priodas; Penblwydd; Bedydd; Angladd;

Cinio Busnes;

Digwyddiadau Maes,

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach

Cyswilt: Mrs Mair Hatcher

Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR

01570 481230 07967 559683

Taith Hanes Cymdeithas Bethel Parc-y-rhos

Ar nos Lun 21 Mai trefnwyd taith y Gymdeithas gan y Llywydd David Thorne ar y themau Ffynnon Teilo a ffynhonnau eraill, Llwybrau Teilo a llwybrau eraill. Dyma rhan o'r hyn a baratodd yn ysgrifenedig ar gyfer aelodau a ffrindiau'r Gymdeithas a fynychodd y daith.

Dod o hyd i Teilo

Sant yn perthyn i'r 6ed ganrif oedd Teilo a ganed ef yn Penalun (Penally) yn Sir Benfro. Cafodd ef a'i gwlt ddylanwad mawr yng ngorllewin Cymru. Roedd Teilo a Dewi Sant yn cydoesi ac yn perthyn i'r un mudiad cenhadol a nodweddid gan ddisgyblaeth lem. Yn ôl traddodiad aeth Dewi a Theilo a Phadarn ar bererindod i Jerusalem. Pan fu Teilo farw hawliwyd y corff gan dair canolfan, sef Penalun, Llandeilo a Llandâf. Cafodd bob un o'r canolfannau hyn eu dymuniad a'u bodloni'n llwyr, oherwydd drwy wyrth aeth yr un corff yn dri chorff fel y gellid ei weld yn y tri lle ar yr un pryd. Dethlir Gŵyl Teilo ar 9 Chwefror.

Llandeilo 'eglwys Teilo' oedd prif ganolfan Teilo; sefydlodd Teilo gymuned yn Llandeilo; claddwyd ef yn Llandeilo. Honnodd Llandâf yn ddiweddarach mai gyda nhw yr oedd ei gorff ond, mor ddiweddar â'r 13eg ganrif, dangoswyd bedd Teilo yn yr eglwys yn Llandeilo i ymwelwyr, gan gynnwys y Brenin Edward I.

Yn yr Eglwys yn Llandeilo mae, erbyn hyn, arddangosfa barhaol o Efengylau Llandeilo, llawysgrif o'r 8fed ganrif a ddiflannodd o Landeilo â chyrraedd Caerlwytcoed (Litchfield) erbyn y 10fed ganrif a'i galw o hynny ymlaen 'The Litchfield Gospels'. Mae'r llawysgrif wedi'i haddurno yn hynod o hardd ac yn cynnwys lluniau o Luc a Marc.

Mae datblygiadau technolegol y ganrif hon sydd wedi sicrhau bod copi electronig o'r Efengylau wedi dychwelyd i fam eglwys Teilo yn Llandeilo. Mae'r gwreiddiol yn Litchfield o hyd. Yn Lladin yr ysgrifennwyd yr Efengylau, ond mae'r llawysgrif yn cynnwys cofnodion Cymraeg yn cyfeirio at amryw enwau lleoedd yn ardal Llandeilo, at Brechfa ac at Hirfaen Gwyddog.

Y tebyg yw y cedwid y gyfrol wreiddiol ar allor yr eglwys yn Llandeilo a'i defnyddio yn y 9fed ganrif i dyngu llwon mewn achosion yn ymwneud â ffiniau tir a dadleuon cyfreithiol. Ar un o'r cofnodion hyn mae enw Teilo yn ymddangos fel tyst. Mae'r cofnodion hyn o'r pwysigrwydd mwyaf, gan mai dyma'r enghreifftiau hynaf o Gymraeg ysgrifenedig, ac maent yn dweud rhywbeth wrthym am amgylchiadau cymdeithasol ac eglwysig y cyfnod cynnar hwn. Dywedir ynddynt, er enghraifft, fod yna esgob yn Llandeilo Fawr yn y 9fed ganrif.

Mae cynifer o eglwysi yn coffáu Teilo yng ngorllewin Cymru fel yr ychwanegwyd elfen arall at yr enw Llandeilo er mwyn gallu gwahaniaethu rhwng y gwahanol eglwysi hyn â'i gilydd. Llandeilo Fawr oedd y fam eglwys ac mae'n amlwg felly fod Llandeilo Fechan (Llandeilo Abercywyn) yn llai pwysig.

Mewn sawl achos yr elfen gyntaf (sef Llandeilo a ddiflannodd). Yr hen enw ar Amroth oedd Llandeilo Amroth; yr hen enw ar Pentywyn (Pendine) oedd Llandeilo Pentywyn; yr hen enw ar Brechfa oedd Llandeilo Brechfa; yr hen enw ar Llanddowror oedd Llandeilo Llanddyfrwr; yr hen enw ar Llan-arth oedd Llandeilo Llan-arth; yr hen enw ar Pumsaint oedd Llandeilo Pumsaint Caergaeo.

Ger Pontarddulais yr oedd hen eglwys Llandeilo Tal-y-bont sydd erbyn hyn wedi ei hailgodi yn Sain Ffagan. Bu'r eglwys ar y safle ger Pontarddulais er y 13eg ganrif ond y bwriad yw addurno'r tu fewn i adlewyrchu ei chyflwr tua 1500. Tua 1970 y cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yn yr eglwys.

Mae stori ddiddorol yn cysylltu'r emyn Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau ag hen eglwys Llandeilo Tal-y-bont. Awdur yr emyn oedd Dafydd William (?1721-94) a bu Dafydd yn byw mewn ffermdy o'r enw Llandeilo Fach gerllaw'r hen eglwys. Yn ôl yr hanes, merch fyr ei thymher a llym ei thafod oedd gwraig Dafydd ac un noson fe glodd hi ei g'r druan allan. (Cyfaddefodd amryw yn breifat ar ddiwedd y daith eu bod nhw yn adnabod y teip yn dda.) Bu rhaid i Dafydd fynd draw i'r eglwys am gysgod a llonydd. Ond mae Afon Lluchwr yn gorlifo dros y tir o amgylch yr eglwys a'r ffarm yn gyson ac felly'r oedd hi'r noson honno; ac yn y fynwent, a'r d'r yn herio'r waliau y cyfansoddodd Dafydd ei bennill enwocaf Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau.

Y pum sant a gysylltir yn draddodiadol â Llanpumsaint ac â

Llandeilo Pumsaint Gaergaeo yw Gwyn, Gwynno, Gwynoro, Celynnin a Ceitho. Ac yn ôl traddodiad fe gawson nhw un ac oll eu cipio i ogof i aros naill ai am ail-ddyfodiad y Brenin Arthur neu tan



bod esgob duwiol o'r iawn ryw yn cael ei benodi i'r ardal.

Dae'n stori werin, wrth gwrs, ond stori werin â thro go iawn yn ei chynffon. Pwy sgwn i oedd yr esgob dan gabl gan y storiwr? Pwy oedd yn gyfrifol am ledu'r stori; ac achos pa esgob oedd e'n ceisio'i hyrwyddo? Yn anffodus

wyddom ni ddim, a dyw hi ddim yn debyg y cawn ni wybod chwaith am fod chwilio am gymeriadau mewn stori werin fel hyn fel chwilio am gaseg wen yn y niwl – a hwnnw'n niwl go drwchus yn aml.

Mae'r ffaith fod Llandeilo yn rhan o enw gwreiddiol Pumsaint yn awgrymu, sut bynnag, y dylai Teilo ddisodli un o'r seintiau a goffeir ym Mhumsaint - ac yn Llanpumsaint hefyd o ran hynny. Dyna chwech o seintiau felly yn gysylltiedig â Pumsaint.

Stori werin arall sy'n gysylltiedig â Charreg Pumsaint yw i'r pum sant bwyso yn erbyn y garreg i orffwys – un yn pwyso ar bob ochr i'r garreg ac un yn eistedd ar ei phen. Daeth y diafol heibio, fel y bydd yn gwneud yn ardal Pumsaint o bryd i'w gilydd, a sodro'r pum saint i'r garreg. Ond cymerodd y dewin Myrddin drueni ar y pum sant a'u rhyddhau nhw. Ond gwelir ôl cefnau pedwar o'r saint ar hyd ymyl y garreg hyd heddiw – ac ôl pen ôl y pumed sant ar ben y garreg.

Ffynhonnau Teilo

Ar ochr ddeheuol mynwent yr eglwys yn Llandeilo, yn wal Lôn y Llan (Church St), mae piben yn arllwys dŵr o darddnant yn y fynwent ei hunan. Dyma ddŵr o Ffynnon Teilo a leolir yn agos i ochr ddwyreiniol yr eglwys. Darparai'r ffynnon ddŵr i drigolion y dref am ganrifoedd, hyd nes iddi gael ei gorchuddio yng nghanol y 19eg ganrif. Mwy na thebyg ei bod hi'n darddiad cysegredig a ddefnyddiwyd fel beddyddfan o ddyddiau cynnar. Un chwedl sy'n gysylltiedig â'r ffynnon yw bod penglog Teilo yn cael ei ddefnyddio i yfed dŵr y ffynnon a bod d'r y ffynnon yn iacháu'r pas.

Mae hanes dyrys a diddorol i benglog Teilo. Hawliai Llandâf mai gyda nhw yr oedd gwir fedd a gwir benglog Teilo. Yn wir roedd swydd yn yr eglwys gadeiriol yn Llandâf yn yr 11eg ganrif a chyfrifoldebau'r swyddog (Gruffydd Gwas Teilo) oedd gofalu am y bedd a'r benglog. Roedd meibion i ddilyn eu tadau yn y swydd hon ac yng nghanol y 15fed ganrif gosodwyd y benglog mewn daliwr costus gan Syr David Mathew a oedd yn yr olyniaeth hon. Daeth y benglog i Landeilo Fawr am gyfnod yn 1658 ond aethpwyd â hi i Landeilo Llwydach (Sir Benfro) lle y cafodd ei ddefnyddio fel cwpan i yfed dŵr o Ffynnon Teilo. Teulu o'r enw Melchior oedd ceidwaid y benglog erbyn hyn. Yn 1927 prynwyd y benglog yn ôl gan deulu Mathew a'i gosod, yn y pendraw, yn Eglwys Gadeiriol Llandâf yn 1994.

Collodd Llandeilo Fawr ychydig o'i phwysigrwydd eglwysig rhwng 900 a 1200. Yn ystod y 9fed ganrif roedd yma esgob, ac erbyn 1200 roedd yn eglwys blwyf gydag ardal eang o dros 20,000 o erwau. Roedd hefyd yn blwyf cyfoethog, ond trosglwyddwyd ei gyllid, ynghyd â thiroedd hen gymuned Teilo, i Abaty Talylychau yn yr 12eg ganrif.

Ceir dwy ffynnon arall sy'n coffáu Teilo yn Sir Gaerfyrddin y naill ger Brechfa a'r llall ym Mynydd-y-garreg.

Mae hanesyn am lond gambo o gleifion o Benclawdd yn cyrraedd Llandeilo Llwydach ac yn yfed yn helaeth o'r ffynnon. Ond ni ddigwyddodd dim byd. Ar ôl iddynt gyrraedd yn ôl i Beclawdd holodd rhywun a oedden nhw wedi yfed y dŵr o benglog Teilo. Nôl â nhw drachefn yn y gambo a rhoi prawf ar y ffynnon unwaith eto gan yfed y tro hwn o benglog Teilo. Yr hanes yw iddyn nhw gael eu hiacháu.

Mae peth tystiolaeth bod y dŵr o'r ffynnon yn Llandeilo Llwydach yn cael ei boteli a'i werthu.

(Bydd hanes Talylychau yn y rhifyn nesaf CLONC)

Os hoffech roi neges o ddiolch yn CLONC, goynnwn am **£5.00**

Os hoffech gynnwys hysbyseb bach, fel y rhai yn y rhifyn hwn, gofynnwn am **£10**, neu **£50** am hysbyseb bach mewn 10 rhifyn.

Dau Frawd --- Dau gyfeiriad gwbl wahanol



Diddorol yn aml yw gweld dau o blant o'r un teulu yn dilyn gyrfaoedd gwbl wahanol. Dyma yn wir a geir yn hanes y ddau frawd hoffus sef Wyn a Dorian o Heol y Bont, Llambled – meibion Dewi a Heddwen Morgan.

Ar ôl cwblhau ei Lefel A yn Ysgol Gyfun Llambled, fe aeth Wyn (i'r dde o'r llun) ymlaen i astudio Rheolaeth a Thechnoleg (Management & Technology) ym Mhrifysgol Bradford, Swydd Efrog. Yn wir, medrir dweud fod Wyn yn berson o flaen ei amser oherwydd yr oedd y cwrs bedair blynedd yn delio gyda'r holl agweddau a'r gofynion o ddeall yr oes dechnolegol fodern gan gynnwys y cyfrifiadur. Graddiodd ym Mhrifysgol Bradford, a chan fod ganddo'r cymwysterau priodol, daeth o hyd i swydd yn gymharol hawdd. Bu yn gweithio gyda chwmni Logica yn Llundain am saith mlynedd cyn symud i Barings wedyn i Merrill Lynch ond ar hyn o bryd, mae yn gweithio mewn swydd gyfrifol iawn gyda'r European Bank for Reconstruction and Development. Ei brif gyfrifoldeb yn y swydd yw paratoi systemau technoleg i'r "traders" neu'r prynwyr a'r gwerthwyr yn y cwmni.

Mae'r bobl yma yn medru delio gydag arian mawr – hyd at filiynau o bunnoedd y dydd wrth geisio prynu a gwerthu cyfranddaliadau dros eu cwsmeriaid. Mae'r pwysau gwaith yn anhygoel yn enwedig pan fydd y farchnad yn disgyn - yn wir, mae llawer o'r bobl yma wedi "llosgi allan" yn gymharol ifanc.

Mae gwaith Wyn wedi caniatáu iddo deithio'r byd ac mae eisoes wedi treulio cyfnodau yn gweithio yn Milan, Efrog Newydd, Sydney a'r Almaen. Pan fydd yn cael amser i hamdden, mae'n hoff o fynydd, dilyn clwb pêl-droed Arsenal a chadw mewn cysylltiad â Chymru, drwy ddarllen nifer fawr o gylchgronau Cymreig gan gynnwys ein papur bro "CLONC". Mi lwyddodd i redeg marathon Llundain bump o weithiau ac yn Efrog Newydd unwaith, ac wrth wneud hynny, helpu achosion da.

Ond yn bennaf, gweithio ym myd arian a thechnoleg yn y Ddinas fawr yw prif waith Wyn - byd sydd yn gwbl wahanol i'r bywyd hamddenol yr ydym i gyd yn mwynhau yma yn ein hardal fach ni.

Ond i Dorian, meddai ef, unig bwrpas arian yw eu "hala nhw". Ar ôl gadael Ysgol Gyfun Llambled a chael ei anrhydeddu yn Brif Fachgen, enillodd ysgoloriaeth i astudio Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Abertawe, a llwyddo i ennill gradd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg. Cyfeiriodd at gyfraniad arbennig penaethiaid y tri phwnc a fu yn astudio ar gyfer Lefel A sef Cymraeg, Ffrangeg a Daearyddiaeth. Tra yn yr ysgol, cofiwn am gyfraniad helaeth Dorian i weithgareddau'r Urdd, Yr Eisteddfod, yr ysgol a'r papur bro - popeth ond chwaraeon!

Ar ôl gadael y coleg a phenderfynu gwrthod y cyfle o wneud gwaith ymchwil ac ymarfer dysgu, penodwyd ef yn Gyfieithydd yn y Swyddfa Gymreig, ond mewn ychydig, roedd y Cynulliad wedi ei sefydlu a dyma symud i'r Bae a mwynhau'r profiad yn fawr. Ei rôl ar y cychwyn, oedd cyfieithu deunydd ysgrifenedig, ond ar ôl ychydig amser, daeth yn gyfieithydd-ar-y-pryd sydd yn sialens go wahanol.

Soniais yn barod fod Dorian yn fachgen gweithgar tra yn yr ysgol, ond yr oedd hefyd yn gweithio ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliu yn siop bapur Lomax am gyfnod o saith mlynedd. Yn wir

bu ei enillion yn ddigon iddo roi blaendal ar ei dŷ yn Nhreganna, Caerdydd!

Yn 2001, gadawodd y Bae a'r Cynulliad a derbyn swydd gyda BBC Cymru yn Llandaf - yn gyntaf, fel Cyfieithydd ond erbyn hyn yn Is-Gynhyrchydd Datblygu Darlledu. Rhan o'i waith yw chwilio am straeon cymunedol fyddai'n addas ar gyfer holl adrannau BBC Cymru – o Radio Cymru, Radio Wales a thîm y We i'r adran Newyddion. Mae yna bwyslais mawr erbyn hyn i fynd allan i'r cymunedau i ddarlledu fel y profwyd yn ddiweddar yn Llambled, wrth i Radio Cymru ddathlu gyda'r swyddogion, pen-blwydd CLONC yn bump ar hugain oed. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, bydd Dorian yn gweithio yn ddiwyd gefn llwyfan gyda'r tîm cynhyrchu, a

Llwyddiant i Gôr Cardi-Gân



Yn ystod y misoedd diwethaf mae Côr Cardi-Gân wedi cael cryn lwyddiant. Ar brynhawn ddydd Gwener y Groglith teithiodd y côr i fyny i Eisteddfod Bontnewydd ger Caernarfon i gystadlu. Ac wrth gwrw yn nhraddodiad y côr rhaid oedd gwneud penwythnos ohoni gan benderfynu aros yng ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon am ddwy noson! Roedd angen canu dwy gân gyferbyniol. Dywedodd y beirniad ein bod yn llawn haeddu'r wobwr!

Gyda hyder yn llifo, penderfynwyd mynd i gystadlu yn eisteddfod Llandudoch ar Nos Sadwrn Mai 19eg. Roedd angen inni gyflwyno rhaglen nad oedd yn fwy na deuddeg munud. Canwyd tair cân gyferbyniol iawn. Y tro yma roedd gennym gystadleuaeth! Fe gamodd Eifion Thomas, arweinydd côr meibion Llanelli i'r llwyfan i draddodi'r feirniadaeth. Cafwyd beirniadaeth gadarnhaol ac adeiladol iawn ganddo – ac yn wir cyhoeddodd mai Côr Cardi-Gân oedd ar y brig. Profiad gwefreiddiol i'r côr gyda'r beirniad yn cyflwyno ein harweinyddes Rhian Dafydd gyda chwpan her a siec am fil o bunnoedd. Gallwn wir ddweud ein bod yn canu bob cam i'r banc!!



Yr Adnodd Gwledig - The Rural Resource

Cymorth AM DDIM i grwpiau cymunedol!

Gall CefnGwlad.org - Yr Adnodd Gwledig gynnig ...

... cymorth TG AM DDIM:

Cyngor cychwynnol (beth sydd arnoch ei angen, sut gall y dechnoleg eich helpu, ac ati) • Fforwm trafod preifat ar gyfer eich grŵp • Gwe-dudalen ar gyfer eich grŵp

... cymorth AM DDIM gyda digwyddiadau:


Gallwn drefnu neu hwyluso digwyddiadau ar eich rhan: Seminarau • Cynadleddau • Cyfarfodydd cyhoeddus • Ymgynghoriadau • Digwyddiadau crefft a thwristiaeth

... cymorth cyffredinol AM DDIM:

Ein gwefan • Defnydd o'n swyddfa yn Aberystwyth ar gyfer cyfarfodydd • Cymorth â gwaith ymchwil • Rhwydweithio • Prosiectau ffilm amrywiol

Am fanylion pellach ffoniwch (01970-625616), e-bostiwch (post@cefn gwlad.org) neu ewch i'r wefan (www.cefn gwlad.org).





Helpu Tlodion Sierre Leone

Mae apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni yn anelu i gynorthwyo gwaith Cymorth Cristnogol yng ngwlad Sierra Leone. Dyma yn ôl pob hanes yw un o wledydd tlotaf y byd, lle mae'r tlodi, prinder adnoddau a bwyd yn golygu mai oes gymharol fer sydd i'r mwyafrif o'r trigolion. Fel rhan o'r apêl mae Eglwys Shiloh, Llambled yn trefnu Oedfa o Fawl ar nos Sul, Gorffennaf 1 am 7 o'r gloch a bydd hyn yn gyfle hyfryd i ddathlu ail agor y Capel ar ôl ei addurno. Yr ydym yn ffodus o gael cwmni Côr Meibion Cwmann a'r Cylch, Côr Merched Corisma a phlant Ysgol Sul Shiloh. Edrychwn ymlaen yn fawr at eu cyfraniad. Bydd Radio Cymru yn recordio'r oedfa ar gyfer Caniadaeth y Cysegr, ac yr ydym yn ddiolchgar i Cedri Jones o gwmni Andante am ei gydweithrediad parod bob amser. Oherwydd maint Eglwys Shiloh bydd rhaid cyfyngu ar nifer y rhaglenni.

Pris y rhaglen fydd £3.00 ac mi fyddant ar gael gan aelodau'r Eglwys. Beth am ddod i gefnogi ac wrth wneud hynny ceisiwn wireddu breuddwyd Aled Lloyd Davies yn ei emyn yn y Detholiad Gydenwadol eleni.

"Fe ganwn fawl i Ti, ein Harglwydd Dduw

Am roi i bawb o'th blant yr hawl i fyw."

Sianel Deledu Gymraeg i Blant

Mae Awdurdod S4C wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus i gynlluniau i gyflwyno sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd yn Gymraeg i blant.

Meddai John Walter Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C: "Mae gwyllo pobl ifanc yn mudo o'r prif sianeli teledu i'r sianeli arbenigol hynny sy'n darparu rhaglenni i bobl ifanc yn unig. Gyda theledu ar fin mentro i'r oes ddigidol-yn-unig, rhaid inni sicrhau bod plant a phobl

ifanc Cymru yn cael yr un cyfle â phlant a phobl ifanc mewn mannau eraill. Mae'n hollbwysig bod gwasanaeth Gymraeg cyfatebol yn cael ei ddarparu.

"Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn holi barn y rhai sydd â diddordeb yn y maes hwn - yn benodol, athrawon, rhieni, elusennau plant, mudiadau ieuenctid, gwleidyddion a'r plant eu hunain. Rydym am sicrhau bod ein gwasanaeth yn ateb anghenion ein pobl ifanc."

Argymhellir y bydd y gwasanaeth ar gael yng Nghymru ar deledu lloeren ddigidol, cebl digidol a daearol digidol. Fe fydd hefyd ar gael i wylwyr yn rhannau eraill y DU ar loeren ddigidol a band llydan.

Ewch i'r wefan s4c.co.uk/ plant i gael manylion am yr ymgynghoriad, sy'n dod i ben ddydd Gwener, 20 Gorffennaf.

14 Cwrt Coed y Brenin,
Church Village,
Pontypridd, CF38 1TN.

Annwyl Ddarllenwyr,

Mae'r delynores a chyn-gyflwynwraig Glenda Clwyd yn bwriadu gwneud taith o gwmpas Cymru gyda'i thelyn rhwng mis Mai a Gorffennaf eleni. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o'r Wyl Delyn arbennig sydd yn dod i Gymru o Orffennaf 18 hyd 27 2007 sef **ARPA VIVA CYMRU**.

Fel aelod o Bwyllgor yr Wyl, mae hi'n fodlon cynnal prynhawn neu noswyl o adloniant mewn ysgolion, siopau cerdd, llyfrgelloedd, neuaddau neu i fudiadau lleol ledled Cymru er mwyn codi proffil yr wyl.

Ar yr 22ain o Orffennaf bydd Cyngerdd Mawreddog yng Nghanolfan y Mileniwm gyda chôr o 100 o delynau yn perfformio yn y Lanfa. Yn dilyn cyngerdd Telynau'r Ddraig gyda Catrin Finch, Sian Cothi, Sian James, Only Men Aloud, Jeremy Huw Williams, Robin Huw Bowen, Côr Glanaethwy, Dawnsywyr Nantgarw a Jemima Phillips. Noson i'w chofio fydd hi, archebwch eich tocynnau yn awr!

Gyda diolch,
Glenda Clwyd, Telynores

Ystafell C201,
Y Ganolfan Ddarlledu,
Canolfan y BBC, Llandaf,
Caerdydd. CF5 2YQ.

Annwyl Ddarllenwyr,

Atgofion am deledu Cymraeg
Mae BBC Cymru yn paratoi rhaglenni am hanes teledu Cymraeg fydd yn cael eu darlledu ar S4C yn yr Hydref i gyd fynd

â dathliadau'r sianel yn chwarter canrif oed.

Mae'r tîm cynhyrchu yn awyddus i glywed gan bobl am eu hatgofion am wyllo'r teledu - yn enwedig o'r dechreuadau cynnar. Ydy chi'n cofio'r tro cyntaf weloch raglen ar y teledu? Oeddech chi'n mynd i weld y

teledu ar y dechrau? Pa raglenni Cymraeg sy'n sefyll yn y cof?

Os oes gyda chi stori i'w rhannu, cysylltwch ag Elin Morse 029 20 323277 neu e-bostio elin.morse@bbc.co.uk neu ar y cyfeiriad uchod.

Yn gywir,

Elin Morse

CEFNOGI CLONC 2007

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of

Cangen / Branch

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambled 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o

£5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name

Cyfeiriad Llawn / Address

Rhif y cyfrif / Account no

Dyddiad / Date . . . / . . . /07

Arwyddwyd / Signed

**** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi****

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda. Plis, plis.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.
**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw:

Cyfeiriad:

CLWB CLONC
Mehefin 2007

£25 rhif 301:

Cari Lake,
The Heaven, Llambled

£20 rhif 28:

Mrs Rosemary Davies,
Brynteg, Llambled

£15 rhif 385:

Olwen Thomas,
Riverside, Caerdydd.

£10 rhif 328:

Mrs Marian Morgan,
Glasfan, Drefach.

£10 rhif 13:

Phyl Chapman,
Ffordd-y-Gogledd, Llambled.

£5 rhif 286:

Mrs Brenda Jones,
Ty Cerrig, Cwrtnewydd.

Mae'n amser ymaelodi unwaith eto. Diolch am eich cefnogaeth

Rali CFFl Ceredigion

C.Ff.I. Llanwenog

Do, cafodd C.Ff.I. Llanwenog rali lwyddiannus eleni eto, gan gipio'r 3ydd safle ar ddiwedd y dydd. Dyma'r canlyniadau:

Cystadlaethau yr Aelodau: 1af Coginio- Siwan Davies a Angharad Isaac: 1af, Crefft - Carys Evans: 3ydd, Blodau - Angharad Lewis: 1af.

Barnu Defaid Suffolk: Dan 26 - Kevin Davies: 1af, Dan 21 - Steffan Davies: 4ydd, Dan 16 Menna Williams: 1af, Tîm - Menna Williams, Kevin Davies a Steffan Davies: 1af, Unigolyn gorau yn yr adran: Menna Williams yn 1af. Barnu Gwartheg Limousin: Dan 16- Sion Griffiths: 2ail, Tîm: Sion Greiffiths, Helen Davies a Arwel Jenkins: 9fed. Seren Wib: 5ed, Dawnsio: 6ed, Arddangosfa Ffederasiwn:




Brenhines a Morwynion y Sir



Steffan Davies, Menna Williams a Kevin Davies



Siwan Davies, Angharad Isaac ac Angharad Lewis



Manon Richards



Dylan Davies, Clwb Pontsian

3ydd. Cneifio: Dan 21 - Heilin Thomas: 2ail, Tîm- Heilin Thomas a Kevin Davies: 2ail. It's a Knock Out: 6ed.

Enillodd Manon Richards y wobwr am yr aelod mwyaf gweithgar yn y Sir rhwng 2006 a 07. Llongyfarchiadau mawr i ti!

Hefyd, derbyniodd Arwel Jenkins y wobwr am un o'r aelodau a dreuliodd yr amser mwyaf dramor. Da iawn ti, a braf oedd gweld Helen Davies ar y llwyfan yn ystod y dydd hefyd, fel un o forwynion y Sir.

Ac yn uchafbwynt i'r diwrnod, enillodd y clwb Gwpan Gwynne Davies am y clwb sydd wedi gwneud orau yng ngweithgareddau'r Sir dros y flwyddyn a fu. Go lew wir!



Einir Ryder, Bethan Davies a Carol Davies, Clwb Ponsian yn ennill cwpan yn y gystadleuaeth 'Pecyn Addysg Iechyd Da'.

LLANGYBI A BETWS

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Angharad a Chris Hull, Penybryn, Fferm Pwllglas, Llangybi ar enedigaeth Lily Bethan - chwaer fach i Bronwen.

Is-Cadeirydd newydd

Cyhoeddwyd Is Gadeirydd newydd Cyngor Sir Ceredigion yn y Cyfarfod Blynnyddol, ddydd Gwener yr 18 o Fai.

Y Cynghorydd Fred Williams fydd y Cadeirydd newydd, a'r Cynghorydd Odwyn Davies, Llangybi fydd yr Is-Gadeirydd.

Dywedodd y Cynghorydd Fred Williams; "Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael fy newis fel Cadeirydd nesa Cyngor Sir Ceredigion. Rwy'n edrych ymlaen at gyfrannu at y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud gan fy rhagflaenydd, y Cynghorydd Ivor Williams."

Mae'n ffermio gartref gyda'i wraig Ann, Pennaeth Ysgol y Dderi, Llangybi, ac mae ganddynt un mab, Rhun.

Mae'n Gynghorydd Sir ar gyfer ward Llangybi, ers 1999. Mae'r Cynghorydd Davies hefyd yn aelod o'r Cyngor Cymunedol ac yn Is-Gadeirydd ar Bwyllgor Cyllid y Cyngor Sir, ac mae'n

eistedd ar Bwyllgor y Neuadd Gymunedol, Llangybi Pwyllgor Lles Cymunedol a Phwyllgor Cymdeithas Ysgol y Dderi.

Mae'r Cynghorydd Davies yn weithgar iawn o fewn y gymuned, yn enwedig gyda gweithgareddau pobl ifanc.

Brysiwch Wella

Dymunwn wellhad buan i Mr Huw Evans, 5 Godre'r Coed, Olmarch. Nid yw wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ddiweddar. Gobeithio gweld Huw nôl yn y fan fach goch yn weddol fuan.

Rydym yn dymuno'n dda i bawb arall sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

Llangybi yn Tyfu

Mae pentref Llangybi wedi tyfu yn gyflym iawn yn ystod y blynnyddoedd diwethaf yma. Gobeithio y bydd y bobl sy'n symud i fyw i'r pentref yn ymuno â'r ddau gapel a'r eglwys i lenwi tipyn ar y seddau gwag.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo a'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis diwethaf.

DREFACH A LLANWENOG

Eglwys Santes Gwenog.

Yng Nghyfarfod blynyddol Festri'r Pasg, etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn.

Warden y Ficer,- Mary Thomas, Ffosffald. Warden y bobol,- Pauline Roberts- Jones, Tynporth. Ysgrifennydd,-Keith Goodall, Sychbant, Trysorydd,-Lynne Goodall, Sychbant. Diolchodd y ficer i'r swyddogion, yr organyddion a'r aelodau am eu gwasanaeth yn cynnal yr Eglwys dros y flwyddyn.

Diolchodd yn arbennig i Keith Goodall am ei wasanaeth fel Warden y Bobol am dros chwe blynedd.

Yn ystod y mis daeth nifer o wragedd y plwyf i'r Eglwys fach i wersi gosod blodau o dan hyfforddiant Nicola o 'Cascade' Llanbed. Diolchwn yn fawr iddi am ei hyfforddiant.

Nos Wener y 1af o Fehefin cawsom noson hwylus iawn gyda Chôr Cwmann ac artistiaid unigol. Paratowyd lluniaeth i bawb ar ddiwedd y noson.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylyd, a da yw clywed fod Mrs Ray Davies Crug ac Arwyn Jones Gellideg ar wellhad.

Enillwyr Clwb 100 Mis Mehefin,- Katie Jones, Builth Wells - £15.00, Peter Fillery - £10.00, Eleri Davies, Highmead Cottage - £5.00.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Siwan Davies, Llys-deri ar ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Llandudoch ar nos Sadwrn, Mai 19eg. Dywedodd y beirniad ei fod y gystadleuaeth o safon uchel, hefyd iddi basio ei phrawf gyrru yn ystod yr wythnos ag ennill y gystadleuaeth coginio 16 neu iau yn Rali C.Ff.I. Ceredigion. Wythnos a hanner Siwan.!!!

Brynteg

Braf oedd cael croesawu Mudiad Chwiorydd yr Annibynwyr, De Ceredigion i Brynteg ar yr 22ain o fis Mai. Llywyddwyd yr oedfa gan Mrs Gwendoline Evans, a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan chwiorydd Brynteg a Bethel. Cyflwynwyd yr emynau gan Ann Coughlan, Dilwen George ac Yvonne Davies; Darllenwyd rhannau o'r ysgrhythur gan Megan Jones ac Yvonne Evans, ac

offrymwyd gweddi gan Annie Bowen. Betty Jones a Dilwen Watkins bu yng ngofal y casglu, ac Yvonne Davies oedd yr organyddes.

Siaradwraig wadd y noson oedd Heledd ap Gwynfor, Llanpumpsaint, a rhoddodd braslun o'r ddwy flynedd a dreuliodd yn China yn dysgu Saesneg wrth wneud gwaith gwirfoddol dramor (VSO). Clywyd sut y bu hi'n dysgu'r iaith Mandarin er mwyn cyfathrebu â'r brodorion, a'r pwysigrwydd o ynganu'r geiriau yn y modd cywir; soniodd am drafnidiaeth, ac am fwyd - a'r ffordd o'i fwyta yn China, am y marchnadoedd - y prynu a'r gwerthu, ac am fywyd yn gyffredinol yn y wlad honno. Diolchwyd yn gynnes i Heledd gan y Llywydd, a chyn cyhoeddi'r fendith croesawyd pawb i aros am ychydig luniaeth, wedi ei baratoi gan chwiorydd Brynteg.

Y Gymdeithas Hŷn.

Taith dros Bont Hafren ac ymlaen i Gaerfaddon gafodd aelodau'r gymdeithas fis Mai.

Braidd yn gymysglyd oedd y tywydd ond ni wnaeth amharu'n ormodol ar ein pleser. Mae'r dref yn hynafol gyda'i baddonau Rhufeinig sy'n llawn dŵr iachusol gyda llyfr-ediad o 250,000 galwyn y dydd ar dymheredd o 115°F. Glaw ar fryniau'r 'Mendips' tua deunaw milltir i ffwrdd sy'n llyfr-ediad danddaearol ac yn tarddi'n lleol yw cyflenwad y dŵr.

Galw ar y ffordd adre yn Nhafarn y Deri, Llanedi am bryd o fwyd bendigedig mewn lleoliad na wyddai mwyafrif yr aelodau amdano.

Fis Mehefin, ar y 13eg yn cychwyn o Llanedi am 10 o'r gloch byddwn yn teithio i Fachynlleth ac yna yn ôl i Aberystwyth ganol y prynhawn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Dylan Davies, Maesglas ar ennill dau gwpan yn Rali CFFI Ceredigion am feirniadu gwartheg Limousin o dan 26oed. Roedd hefyd yn aelod o'r tîm a wnaeth ennill hefyd. Pob lwc i ti yn y Sioe Frenhinol y mis nesaf.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mrs Margaret Griffiths a'r teulu, Crug-y-whil,

yn dilyn marwolaeth gŵr a thad annwyl ym mherson Mr John Griffiths.

Ysgol Llanwenog

Mae'r ysgol wedi dechrau ar brosiect Ysgolion Eco. Trwy hyn fe fydd y plant yn dod yn fwy ymwybodol o'u hamgylchedd. Rydyn yn dechrau o safle go uchel gan fod gennym ardaloedd delfrydol o amgylch yr ysgol. Mae'r plant wedi dewis pwyllgor gogyfer â'r prosiect a hoffwn ddiolch i Mr Roy Bracy ein tirmon am gytuno i helpu gyda'r gwaith.

Rydym wedi penderfynu mynd â'r ysgol gyfan i gael gwersi nofio ym Mhwll Llamed. Erbyn hyn rydym wedi bod dwy waith ac mae pawb yn elwa yn fawr o'r profiad.

Mae Mr Terry Jones, Swyddog Diogelwch y Sir yn ymweld â'r ysgol unwaith eto i roi gwersi beicio i'r plant. Diolchwn yn fawr iawn iddo am ddod ac rydym yn hyderus y bydd yr holl blant wedi dysgu llawer iawn ac y byddant yn sicr yn fwy diogel ar yr heol fawr.

Aeth cynrychiolaeth dda o'r ysgol i gymeryd rhan yng Ngwasanaeth Sul Addysg yn Eglwys y Drindod Sanctaidd yn Aberaeron ar y 13eg o Fai. Ymunodd y plant i ganu dau emyn gyda phlant o Ysgol Llanllwni a Myfennydd. Darllenodd Dyfan, Carys a Ffion o'r Hen Destament a chyhoeddwyd emyn gan Kurtis. Diolch iddynt hwy am eu gwaith ac i George, Rhys, Gwen, Lowri a Ben am ddod i ymuno gyda'r

canu. Diolch i'r teuluoedd hefyd am eu cefnogaeth. Pleser o'r mwyaf oedd gwrandao ar y Tad Carl Cooper yn rhoi anerchiad ar y pwnc o 'Fasnach Deg'.

Llongyfarchiadau i Delyth Ann am ddod yn ail mewn cystadleuaeth lliwio gyda Bhs yn ddiweddar. Da iawn ti!!

Aeth Rhian, Blwyddyn 6 a Rebecca, Blwyddyn 4 i redeg yn Rasys Traws gwlad yr Urdd yn Aberystwyth - da iawn i'r ddwy am wneud mor dda. Llongyfarchiadau hefyd i Rhian a oedd yn aelod o'r tîm buddugol yn Rasys Trap.

Mwynhaodd y plant fod yn rhan o Sioe Diogelwch y Ffyrrd a'r Amgylchedd a gafwyd ei drefnu gan Ceredigion yn Ysgol Cwrtnewydd y mis yma. Yr artistiaid oedd y Brodyr Gregory. Diolch i Ysgol Cwrtnewydd am eu croeso ac i'r Brodyr am sioe fythgofiadwy!

Dewch i gasglu

Mefus!

(Cynyrch Organig)

O ganol Mehefin hyd ddiwedd Gorffennaf.

Maes yr Onnen

Drefach Llanwenog

o 10 y bore tan 8 y nos.

(Rhowch ganiad yn agosach i'r amser i gadarnhau'r amseroedd)

01570 480785

£1.41 y pwys £3.10 y Cilo
Cyfle i chwi ymweld â'n siop organig yn gwerthu dewis o gynyrch lleol fydd yn agor i gyd-redeg a chyfnod y mefus.



Eryl Jones Cadeirydd, Wendy Evans Trysorydd a Rhian Bellamy Ysgrifenyddes Sioe Amaethyddol Gorsgoch a CFFI Llanwenog, yn cyflwyno sic o £1,500, sef elw'r sioe llynedd i Uned Chemotherapy Glangwili.

LLANWNNEN

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da i Ann 3 Bro Grannell wedi iddi gael llawdriniaeth yn ddiweddar yn dilyn cwmp cas. Gobeithio eich bod yn gwella erbyn hyn.

Llongyfarch Llenorion

Llongyfarchiadau i Luned Mair, Penynant wedi iddi ennill dlws Ieuenctid Eisteddfod Talgarreg yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i dad Luned, Dylan Iorwerth, sydd newydd gyhoeddi llyfr o'i erthyglau.

Pwyllgor Lles

Mae'r Pwyllgor Lles yn trefnu trip i Ddinbych y Pysgod ar ddydd Iau 21ain Mehefin. Bydd y bws yn gadael Llanwnnen am 9.15 y bore. Enwau os gwelwch yn dda i Gomer Lewis, Hafan.

Ysgol Llanwnnen

Bu merched yr adran Iau i gyd yng Nghanolfan Hamdden Llambled ar fore dydd Gwener, Mai 4ydd i fore o sgiliau pêl-droed. Trueni mae dim ond tair ysgol o'r cylch oedd yno.

Yn ystod mis Hydref ers sawl blwyddyn bellach rydym yn casglu hen focsys esgidiau a'u pacio gyda phapur lapio ac ynddynt mae anrhegion i blant sydd yn dlawd allan yn Romaina. Ar fore dydd Mercher, Mai, 9fed daeth Richard Burgess atom i ddangos lluniau i ble mae'r holl bethau yma yn mynd yn flynyddol. Roedd Richard wedi bod allan ar ei 28ain taith i Romania yn ystod diwedd Ebrill. Roedd yn agoriad llygad i ni gyd i weld y tloedi oedd yn y wlad.

Ar ôl ei ohirio ar ddechrau'r mis oherwydd y tywydd gwlyb,

roedd hi'n noson braf ar gyfer y Chwaraeon Potes pan cynhaliwyd ar gaeau Ysgol Ffynnonbedr. Aeth 2 dim o Lanwnnen i gymryd rhan y gweithgaredd.

Ar ôl bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod Rhanbarth roedd gennym 3 chystadleuaeth yn mynd ymlaen i Eisteddfod Sir Gâr.

Do, ar fore dydd Llun, 28ain o Fai teithiodd adran Iau yr ysgol a Twm Ebbsworth i lawr i faes y Sioe, Nant y Ci yng Nghaerfyrddin i gystadlu. Gorfu i Twm godi yn gynnar iawn gan fod ei ragbrawf llefaru Bl. 2 ac iau am 7:45y.b. Yna, am 10:20 roedd rhagbrawf y ddawns greadigol. Ni chawsant lwc i fynd ar y llwyfan ond fe wnaeth pawb fwynhau'r profiad yn fawr iawn. Roedd safon yn uchel iawn gyda 16-17 yn cystadlu yn y ddwy gystadleuaeth uchod. Lwcus ein bod yn byw yn lleol eleni gan fod ein trydydd rhagbrawf y Cyflwyniad Dramatig ar ddydd Mawrth, 29ain o Fai.

Hoffai staff a disgyblion yr ysgol i ddiolch i BAWB a fu'n helpu mewn unrhyw ffordd adeg ymarferion tuag at y Genedlaethol. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr.

Pwyllgor Canmlwyddiant

Cynhelir ein pwyllgor nesaf ar nos Lun, Gorffennaf 9fed am 7y.h. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Tracy a Mark Jenkins, Glas-y-Dorlan, Llanllwni ddiolch am y llu cardiau, anrhegion a rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas yn ddiweddar. Gwerthfawrogyd y cyfan yn fawr iawn.

Cymanfa Ganu

Ar nos Sul, Ebrill 29ain cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel y Groes sef lleoliad hyfryd ar gyfer yr achlysur. Arweinydd y noson oedd y Cyng Haydn Richards, Lowtre. Yr organyddes oedd Ceinwen Roach, Bro Llan. Arweinyddes y canu oedd Mrs Betty Davies, Aberaeron a gafodd hwyl a graen ar y canu, y gynulleidfa yn ymuno mewn mwynhad a'r canu yn codi'r to. Roedd gan Betty ddawn arbennig.

Yr artistiaid oedd Manon Richards, Lowtre a Parti'r Gannwyll a gyflawnodd nifer o eitemau cerddorol. Roeddent yn meddu ar leisiau hyfryd, cyfoethog ac mae'n amlwg bod dyfodol disglair ger llaw.

Llywydd y noson oedd Mr Jack Jones, Fferm Cornicyll, Llanwnnen a gyfrannodd rodd ariannol anrhydeddus tuag at yr achos. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad a'i bresenoldeb gan y Cyng Haydn Richards.

Trefnwyd yr achlysur gan y Pwyllgor Lles a diolchwyd i bawb am eu cymorth i wneud y noson mor llwyddiannus gan Mrs Gwen Davies, Llys-aeron. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at drefnu gweithgaredd i henoed y pentref.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Idwal Evans, 2 Sycamore Terrace a fu farw ar ddiwedd mis Mai yn ysbyty Glangwili. Roedd yn un o gymeriadau'r pentref ac fe'i gwelwyd yn mynd o gwmpas y pentref yn ddyddiol pan oedd ei ieuchyd yn caniatáu. Fe fydd lle Idwal yn wag o gwmpas y pentref. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent Capel Undodaidd Alltyblaca.

PENCARREG



Yn y llun gweler Dai Davies, Pencarreg a fu yn rhedeg yn Marathon Llundain ym mis Ebrill. Carai Dai ddiolch o galon i bob un a'i cefnogodd yn ariannol a chododd swm o £4000 am ei ymdrech a bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i Ysbyty Plant Birmingham ar y 24ain o fis Mai ble y mae ei ferch Jasmine yn glaf allanol. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Llongyfarchiadau

... i Jasmine Davies, Glenview am ennill y wobwr gyntaf am adrodd o dan 8 oed a'r ail wobwr am gan yn Eisteddfod Llandudoch. Hefyd enillodd gwpan her am y perfformiad llwyfan unigol gorau yn yr holl gystadlaethau dan 8 oed. Enillodd ail am adrodd a'r trydydd wobwr am ganu yn Eisteddfod Talgarreg. Da iawn ti, dal ati.

Rhifyn mis Gorffennaf
Yn y Siopau
Gorffennaf 5ed
Erthyglau i law erbyn
Mehefin 22ain
Newyddion i law erbyn
Mehefin 25ain



Y cyn gadeirydd y Cyng Mrs Anwen Frost Fferm Maestir yn trosglwyddo Cadwyn y Cadeirydd i'r cadeirydd newydd y Cyng Mrs Gwen Davies, Llys Aeron ym mhwyllgor blynyddol Cynor Cymned Llanwnnen a gynhaliwyd ym mis Mai.

Hysbysir chi am ddigwyddiad gwahanol a chyffrous sydd i'w gynnal yng Nghanolfan yr Urdd Llangrannog ar brynawn Sul, 2 Medi 2007 i lansio gweithgareddau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010.

Bydd Bant â'r **Cart Ceredigion 2010** yn ddiwrnod o hwyl i'r teulu yn cynnwys cinio tri chwrs neu gellir dod â phicnic -, bydd gweithgareddau amrywiol ar gael yn y gwersyll i'r plant a chynhelir oedfa gyfoes deuluol awyr agored i gloi'r prynhawn.

Byddwn yn gwerthu tocynnau o flaen llaw i'r achlysur, felly sicrhewch eich tocynnau chi drwy gysylltu â Nia Davies : 01570 480015 / 07968 223653

Tocyn Maes: Oedolion £5 Plant (dan 16 oed) £3

Tocyn Cinio Dydd Sul 3 Chwrs yng Nghanolfan Syr Ifan gan gwmni Dolen 6 12 00- 12.30: (Mae croeso i chi ddod â gwin neu ddiod eich hun) Oedolion £15 Plant (dan 16 oed) £10

Gweithgareddau ac Atyniadau: MISTAR URDD a'i ffrindiau.

GWEITHGAREDDAU'R GWERSYLL yn cynnwys: Gwibgartio, Nofio, Trampolin, Canolfan Treftadaeth ...NEWYDD!!!

DEWCH I FOD YN RHAN O'R PROFIAD!



Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llambed.


Annwyl blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd yn iawn ac wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor! Mae'r hen Lincyn Loncyn bach wedi bod yn brysor iawn yn ddiweddar yn paratoi'r ardd ar gyfer yr Haf.

Wel mae'n braf gweld cynifer ohonoch wedi rhoi cynnig arni y mis hwn eto. Mae clod arbennig yn mynd i Miriam Butcher o Gaerdydd, Jasmine Davies o Bencarreg a Tanwen Owens o Llambod ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Laura Fflur Gaskell, 1 Bro Ceri, Ffosyffin, Aberaeron.

Da iawn a llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis nesaf a'i ddanfôn ataf erbyn Mehefin 25ain.

Pob hwyl,




**Enillydd
y mis!**

Laura
Fflur
Gaskell




Enw:

Cyfeiriad:



WELSH COUNTRY FOODS Ltd
GAERWEN, YNYS MON
Eisiau ŵyn a hen ddefaid o bob math o bwysau yn ddyddiol



Eich manteision:

- Pris da pob amser
- Gwasanaeth gan ein swyddogion maes profiadol yn rhad ac am ddim
- Cwmni annibynnol yr MLC yn pwysu a graddio'r wyn
- Telir bonws o £1 yr oen am ŵyn sydd yn "Farm assured" o fewn y pwysau 15kg i 21kg a wedi graddio yn E2, E3L, U2, U3L, R2 a R3L.
- Telir bonws am ŵyn sydd yn graddio yn E2, E3L + 15c/kg yn ychwanegol a U2, U3L + 8c/kg yn ychwanegol
- Mae gennym enw da am dalu yn gyflym
- Cludiant am ddim i'r lladd-dy.
- Mae gennym sawl lle i gasglu'r stoc yn eich ardal chi.

Am werthu hen ddefaid ar eich fferm heb gostau? Cysylltwch â'n swyddfa da byw yng Ngærwen:

- ☎ 01248 421111 (Est 100 a 102)
- Adrian Roberts ☎ 07967 677479
- Cyd-lynydd Da-Byw ☎ 07967 987775

A oes diddordeb gennych mewn ymuno â'n tîm profiadol o swyddogion maes – galwch y Rheolwr da byw sef Adrian Roberts am sgwrs anffurfiol.

Ffilmio 'The Edge of Love' yn Llanbedr Pont Steffan

Dau ddiwrnod ym mywyd 'Film Extra'

gan Jen Cairns, Maesyfelin, Llangybi

Fel y gŵyr y mwyfrif o ddarlennwyr 'Clonc', mae yna griw ffilmio wedi bod yn Llambled a'r cyffiniau yn ail-greu anturiaethau Dylan Thomas yn ystod y cyfnod a dreuliodd yng Ngheredigion - yn cynnwys yr hanes fel y bu i swyddog o'r fyddin geisio ei saethu



Dydd Gwener, Mai 18fed. Cyrraedd Ceinewydd yn hwyr y prynhawn. Mentrals dorri drwy rhengoedd diogelwch i'r festri a oedd wedi ei neulltio ar gyfer 'Golygfeydd tyrfa'. Ymuno yno â gwragedd Cei Newydd, a rhyfeddu at effeithiolrwydd meistress y gwisgoedd a'i staff. Doedd yna ddim gwallt hir steil hippy na wisgerod yn y 40au, felly roedd yn rhaid i'r dynion gydsynio yn reit handi ar gael rhain wedi'u symud!

Roeddent wrth eu bodd a'm gwallt hir brith, ond roedd yn rhaid i hwnnw gael ei droi'n donnog cyn ei dynnu nôl mewn

bynnen - yn gwmws fel gwallt Mamgu. a rhwyd gwallt dros y cyfan. Cafwyd hyd i ffrog porffor i mi, ynghyd â phais hir silc; pâr o sgidie hynod o gyfforddus, gyda hoelion mân yn y gwadnau, a bag llaw hen ffasiwn i gwblhau'r wisg.

Dydd Llun, Mai 21ain. Hwn oedd y diwrnod mawr! Roedd yn rhaid bod yn Ystafell Dalis, Y Llew Du erbyn cwarter i saith y bore, lle roeddem i wisgo a chael ein make-up. Rhod fi o dan sychwr gwallt - atgof arall o ddyddiau ienctid. Roedd Jo Conti yno yn gweithio'n hynod o galed ac effeithiol fel meistres gwisgoedd.. Yna roedd yn rhaid aros i gael ein galw.

Roedd yna fagiau tywod yn gorchuddio llawr isa Neuadd y Dre, a Siop Cascade wedi ei weddnewid i fod yn siop gwerthu papur newydd, melysion a thybaco.

Ymhen hir a hwyr, daeth yr amser i ni fynd i fyny'r grisiau i 'Stafell y Llys, a chael ein lleoli yn oriel y cyhoedd. Eisteddai Matthew Rhys a Sienna Miller y tu ôl i ni, a Keira Knightley o'n blaen. Pobol yn gweiddi pethau fel "Camera", "Lights", "Action" a "Hold the Traffic", gan wneud pob math o bethau rhyfedd gyda'r offer dan sylw. Y Cyfarwyddwr yn dal i weiddi wrthym ni'r amaturiaid "Please remember to ACT".

Er fod yna dystiolaeth bod sawl ergyd dryll wedi ei anelu at Dylan Thomas, daeth y rheithgor i'r casgliad fod yr Uwchgaptan Killick yn ddi-euog - er mawr lawenydd i'r brodorion lleol!

Aeth yn 4 o'r gloch y prynhawn cyn i ni gael ein rhyddhau, a dim ond wedyn roedd y rheithgor yn cael eu galw i'r Llys, - wedi bod yn disgwyl eu tro drwy'r dydd. Roedd un diwrnod yn eitha' digon, ond byddwn i ddim wedi ei golli am y byd.

Trannoeth, a ninnau ynghanol sbel o dywydd sych, roedd yn rhaid arllwys 'glaw' artiffisial ar ben y cast, gan ei bod yn glawio adeg y prawf yn y 40au.. Roedd yno hefyd geir Heddlu a chloch ar eu blaen, a'u goleuadau wedi gorchuddio o olwg awyrennau'r gelyn a allai fod yn hedfan uwchben.

I'r rhai sy' â diddordeb: - Daeth Dylan Thomas i ymweld â Plas Llanina yn 1938 gydag Augustus John. Yn 1941 bu DT a Caitlin yn aros ym Mhlas y Gelli, Talsarn, ac eto yn 42-43.

Roedd cysylltiad gyda Dylan â theulu'r Phillips o'r adeg roedd y ddau deulu'n byw yn Abertawe. Vera Phillips briododd â William Killick.

Roedd Caitlin yn disgwyl babi yn ystod y cyfnod yma,(42-43), a bu'n rasio ar gefn ceffyl Pentrefelin, 'Princess Marina' yn rasmus Talsarn. Mae'n debyg iddi ddweud y byddai'n galw'r babi yn 'Aeron' os mae crwt bydde fe, ond iddi ofyn beth allai alw'r plentyn os mae merch fydde'n dod i'r byd,- ac yn cael yr ateb 'Aeronwy.'

Yn 1944 symudodd Dylan a'i deulu i fyw yn Traethgwyn, ger Cei

Newydd,- i fyngalo oedd yn eiddo i Dr. a Mrs Albert Evans, Llambled. Majoda oedd enw'r lle, wedi ei enwi ar ôl plant Dr Albert - Margaret, John a David, a phris y rent oedd £1 yr wythnos. Dr. Albert oedd meddyg teulu'r Gelli, Talsarn, a thrwy'r cysylltiad yna y daethont i wybod am y lle. Yma y saethodd William Killick y dryll beiriannol nifer o weithiau y tu allan ac yn y tŷ, ym mis Mawrth 1945, wedi tipyn o gweryla go danbaid yn nhafarn Y Llew Du yn Y Cei:- hyn oedd yr achos Llŷs yn Llambled ym Mis Mehefin y flwyddyn honno.

Nôl i'r ffilmio: mae'n debyg fod Rebekah Gilbertson, y Cynhyrchydd, yn wyres i William a Vera Killick, ac mae Sharman Macdonald, ysgrifennydd y sgript, yw mam Keira Knightley.

Hel llofnodion y sêr gan Tomos Rhys, Cwmann

Wedi bod allan gyda phlant ysgol Ffynnonbedr yn gwyllo rhan o ffilmio golygfa'r glaw ar y stryd pnawn dydd Mawrth, roeddwn yn teimlo'n gyffrous iawn. Roeddwn i eisiau cyfarfod â sêr y ffilm sef Matthew Rhys, Sienna Miller a Keira Knightley.



Roeddwn wedi gweld Matthew Rhys yn siarad ar S4C o'r blaen ac roedd Keira yn ffilm 'Pirates of the Caribbean' ac roedd lluniau o Sienna yn rhai o gylchgronau mam. Ar ôl swper nos Fawrth, fe boenais i mam a dad nes eu bod yn mynd â fi i'r dref i wyllo diwedd y ffilmio yn y gobaith y byddwn ni'n cael llofnod a llun o rai o'r prif actorion. Fe arhoson ni am dros awr a hanner y tu allan i'r Llew Du. Gorffennodd y ffilmio a daeth tri char gyda ffenestri tywyll i'r golwg a

pharcio y tu allan i neuadd y dref.

Sienna daeth allan gyntaf a mynd am ei char. Dechreuodd mam a fi a'r dorf i alw arni i ddod draw ac wedi pendroni am ychydig fe redodd gan ddweud "Okay then just a few minutes" Fy llyfr i arwyddodd hi gyntaf a defnyddiodd hi fy meiro i arwyddo rhai llofnodion eraill. Llwyddodd mam i dynnu llun ohoni cyn iddi redeg i'w char. Roedd hi'n edrych yn bert iawn a lot o golur ar ei hwyneb.



Nesaf daeth Matthew Rhys ac wedi i bawb alw arno yn Gymraeg fe ddaeth draw ac arwyddo sawl llofnod a thynnu lluniau gydag amryw ohonom ni. Roedd e'n grêt ac yn siaradus iawn yn dweud ei fod wedi cael diwrnod hir yn ffilmio. Yn anffodus y tro yma fe aeth Keira allan trwy gefn Somerfield ond roeddwn ni wrth fy modd i gael llofnod dau allan o dri o'r sêr enwog.

Neuadd y Tymbl

EISTEDDFOD GADEIRIOL Y TYMBL

Dydd Sadwrn, Medi 15fed 2007

Cystadleuaeth Gorawl Agored Ieuenctid 30oed a than hynny, Cyfansoddi Emyn, Cystadlaethau amrywiol, dawnsio disgo Unigol ac i Bartion.

Llên:

Y Gadair: Testun - GAWARIO

Telyneg - CYFALL

Englyn Ysgafn wedi selio ar unrhyw hysbyseb

Ysgrif neu stori - CYMDEITHAS

Brawddeg ar y gair C-R-A-N-O-G-W-E-N

Limrig - Dywedir ein bod ni'n gorfwyta

Medd Besi mewn gwesty'n ciniawa

Wrth nesau at y bwrdd

Aeth doethineb i ffwrdd

Rhaglenni ar gael gan:

Mr Ken Lloyd, 57 Heol y Neuadd, Tymbl, Llanelli. SA14 6HR.

Ffilmio 'The Edge of Love' yn Llanbedr Pont Steffan



Pobl leol yn gweithio ar y ffilm - Claire Holmes, Siop Blue Monkey fel ecstra, Bryn Thomas, Alltyblaca yn ddyn sain a Jo Contis ar y gwisgoedd.

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru



Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn ennill y wobwr gynaf yng nghystadlaeth Parti Unsain blwyddyn 6 ac iau (Ysgolon 50 neu lai) gyda' u harweinyddes Eiddwen Hatcher a'r cyfeilydd Gwyneth Jones.



Amy Roberts, Ysgol Carreg Hirfaen yn ennill y wobwr gyntaf yn nghystadlaeth Unawd Chwythbrennau blwyddyn 6 ac iau.



Braf oedd gweld aelodau Adran Llambod yn ymddangos ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd unwaith eto. Cipiwyd y drydedd wobwr yng nghystadlaeth y partïon llefaru dan 12 oed. Yr aelodau oedd Ceri, Elen, Llion, Miranda, Carys, Lowri Elen, Hannah, Melissa, Tomos Rhys, Caryl, Jessica a Meirion.

Mae dyled y plant yn fawr i Elin am eu hyfforddi ac am roi profiadau gwerthfawr iddynt. Diolch o waelod calon Elin am bopeth. Gwerthfawrogi cydweithrediad a chefnogaeth yr holl rieni hefyd yn fawr iawn.



Llongyfarchiadau i Dewi Uridge, Coedparc, Silian ar gipio'r drydedd wobwr yn y cystadlaeth cyflwyno alaw werin i flynyddoedd 6 ac iau yn Eisteddfod yr Urdd Sir allan o 17 o ymgeiswyr. Cyflawnodd gamp arbennig gan mai dyma'r tro cyntaf erioed iddo gystadlu yn yr Ŵyl.